

# Rhan E – Dilysu a chyfrif y pleidleisiau

Etholiadau ar gyfer Cynulliad  
Cenedlaethol Cymru a Chomisiynwyr  
Heddlu a Throseddu ar 5 Mai 2016:  
canllawiau i Swyddogion Canlyniadau

Cyhoeddwyd Ionawr 2016 (diweddarwyd ym mis Ebrill 2016)

Yn y canllawiau hyn, rydym yn defnyddio 'rhaid' wrth gyfeirio at ofyniad cyfreithiol penodol. Rydym yn defnyddio 'dylai' ar gyfer eitemau sydd yn arfer a argymhellir yn ein barn ni, ond nad ydynt yn ofynion cyfreithiol.

## Cyfieithiadau a fformatau eraill

I gael gwybodaeth am sut i gael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall, neu mewn print bras neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Mae ein holl ganllawiau ac adnoddau ar gyfer yr etholiadau hyn hefyd ar gael yn Saesneg.

Ffôn: 020 7271 0500

E-bost: [publications@electoralcommission.org.uk](mailto:publications@electoralcommission.org.uk)

## Diweddariadau i'r ddogfen hon

<b>Diweddarwyd</b>	<b>Disgrifiad o'r newid</b>	<b>Rhif paragraff</b>
Chwefror 2016	Ychwanegwyd penodau 4 - 7	DD/G
Mawrth 2016	Tynnu paragraff 2.15 gan fod y wybodaeth ar gael mewn manau eraill.	DD/G
Ebrill 2016	Tynnu cyfeiriad gormodol at ddilysu ym mharagraff 2.7	DD/G
Ebrill 2016	Newid geiriad i elgluro bod y cyfeiriad at asiantiaid cyfrif yn cyfeirio at asiantiaid cyfrif yn etholiadau'r Cynulliad a CHTh	3.3
Ebrill 2016	Ail-gyhoeddi i gynnwys cyfeiriadau cyfreithiol	DD/G

# Cynnwys

<b>1</b>	<b>Egwyddorion ar gyfer dilysu, chyfrif a choladu canlyniadau yn effeithiol .....</b>	<b>1</b>
	Dilysu a chyfrif .....	1
	Coladu canlyniadau .....	3
<b>2</b>	<b>Paratoi ar gyfer dilysu a chyfrif pleidleisiau .....</b>	<b>3</b>
	Cynllunio ar gyfer y prosesau dilysu a chyfrif .....	5
	Amseriad y prosesau dilysu a chyfrif .....	5
	Staffio a hyfforddiant.....	6
	Cynllun a chyfarpar yn y lleoliad(au) dilysu a chyfrif .....	7
	Cyfathrebu yn ystod y prosesau dilysu a chyfrif .....	7
	Rheoli'r rhai sy'n bresennol .....	9
	Sicrhau diogelwch papurau pleidleisio.....	10
<b>3</b>	<b>Presenoldeb wrth ddilysu a chyfrif .....</b>	<b>12</b>
	Pwy all fod yn bresennol?.....	12
	Rheoli mynediad.....	13
	Asiantiaid cyfrif .....	14
	Arsylwyr achrededig .....	14
	Cynrychiolwyr y Comisiwn.....	15
	Y cyfryngau .....	15
<b>4</b>	<b>Derbyn deunyddiau o'r gorsafoedd pleidleisio a blychau papurau pleidleisio post wedi'u selio .....</b>	<b>16</b>
	Derbyn y blychau papurau pleidleisio post wedi'u selio.....	17
<b>5</b>	<b>Dilysu .....</b>	<b>18</b>
<b>6</b>	<b>Y broses gyfrif.....</b>	<b>23</b>
	Cyfrif y pleidleisiau.....	23
	Cymysgu .....	23
	Didoli a chyfrif.....	23
	Papurau pleidleisio amheus .....	25
	Cysoni .....	29
	Canlyniad/cyfansymiau lleol dros dro ac ailgyfrif .....	30
	Pleidleisiau cyfartal.....	32
	Datgan y canlyniadau a'r cyfansymiau lleol.....	33
<b>7</b>	<b>Cyfrifo'r canlyniad rhanbarthol a dyrannu seddi .....</b>	<b>35</b>

Amseru'r broses o goladu canlyniadau.....	36
Pwy all fod yn bresennol?.....	36
Cyfathrebu yn ystod y broses o goladu canlyniadau .....	37
Cyfrifo'r canlyniad rhanbarthol.....	38
Datgan y canlyniad rhanbarthol.....	40

# 1 Egwyddorion ar gyfer dilysu, cyfrif a choladu canlyniadau yn effeithiol

## Dilysu a chyfrif

1.1 Dylech sicrhau y gall eich trefniadau o ran dilysu a chyfrif gyflawni'r egwyddorion allweddol ar gyfer proses ddilysu a chyfrif effeithiol, sef:

- Mae pob proses yn dryloyw, gyda thrywydd archwilio clir a diamwys.
- Mae'r broses ddilysu yn arwain at ganlyniad cywir. Golyga hyn fod nifer y papurau pleidleisio ym mhob blwch pleidleisio yn cyfateb i nifer y papurau pleidleisio a roddwyd fel y nodir ar gyfrif y papurau pleidleisio neu, os nad felly:
  - mae'r hyn sydd wedi achosi'r amrywiant wedi cael ei nodi a gellir ei esbonio, a/neu
  - mae'r blwch wedi cael ei ailgyfrif o leiaf ddwywaith, nes bod yr un nifer o bapurau pleidleisio yn cael eu cyfrif ar ddau achlysur olynol
- Mae'r broses gyfrif yn arwain at ganlyniad cywir:
  - o ran cyfrif etholaethol yn etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru<sup>1</sup>, lle mae cyfanswm y pleidleisiau a fwriwyd i bob ymgeisydd a chyfanswm y pleidleisiau a wrthodwyd yn cyfateb i gyfanswm y papurau pleidleisio a roddwyd ar y datganiad dilysu ar gyfer yr etholaeth
  - o ran cyfrif rhanbarthol yn etholiad y Cynulliad, lle mae cyfanswm y pleidleisiau a fwriwyd i bob plaid ac ymgeisydd rhanbarthol unigol a chyfanswm y pleidleisiau a wrthodwyd yn cyfateb i gyfanswm y papurau pleidleisio a roddwyd ar y datganiad dilysu ar gyfer yr etholiad rhanbarthol o fewn yr etholaeth
  - O ran yr etholiad ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throsedd:<sup>2</sup>

---

<sup>1</sup> Fe'i gelwir yn 'Cynulliad' o hyn ymlaen.

<sup>2</sup> Yn achos etholiad ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throsedd sydd â dau ymgeisydd, mae'r broses gyfrif yn arwain at ganlyniad cywir, lle mae cyfanswm y pleidleisiau a fwriwyd i bob ymgeisydd a chyfanswm y pleidleisiau a wrthodwyd yn cyfateb i gyfanswm y papurau pleidleisio a roddwyd ar y datganiad dilysu ar gyfer yr etholiad.

- yn y cyfrif cyntaf, mae cyfanswm y pleidleisiau ffafriaeth gyntaf a fwriwyd i bob ymgeisydd a chyfanswm y pleidleisiau a wrthodwyd yn cyfateb i gyfanswm y papurau pleidleisio a roddwyd ar y datganiad dilysu ar gyfer yr etholiad.
  - yn yr ail gyfrif, lle bo angen, mae cyfanswm y papurau pleidleisio sy'n cynnwys pleidlais ffafriaeth gyntaf i'r ymgeiswyr hynny nad arhosodd yn yr etholiad yn cyfateb i: gyfanswm y papurau pleidleisio sy'n cynnwys pleidlais ail ffafriaeth ddilys i ymgeisydd sy'n parhau i ymladd yr etholiad, yn ogystal â chyfanswm y papurau pleidleisio sy'n cynnwys pleidlais ail ffafriaeth i ymgeisydd nad yw'n ymladd yr etholiad mwyach, a chyfanswm y papurau pleidleisio a wrthodwyd yn yr ail gyfrif.
- Mae'r prosesau dilysu a chyfrif yn amserol.
  - Cedwir y pleidlais yn gyfrinachol bob amser.
  - Cedwir papurau pleidleisio a deunyddiau ysgrifenedig eraill yn ddiogel bob amser.
  - Darperir gwybodaeth yn glir ac yn amserol yn ystod y prosesau dilysu a chyfrif.

1.2 Yn ogystal ag ystyried sut mae sicrhau y bydd eich prosesau yn eich galluogi i gyflawni'r egwyddorion allweddol, bydd angen i chi ystyried ffactorau ymarferol perthnasol eraill a fydd yn effeithio ar drefniadau ac amseriad y prosesau dilysu a chyfrif, megis:

- daearyddiaeth yr etholaeth
- maint yr etholaeth
- maint a chapasiti'r lleoliadau
- cost
- tryloywder i ymgeiswyr, asiantiaid ac arsylwyr

1.3 Bydd hefyd angen i chi ystyried unrhyw ganllawiau neu gyfarwyddiadau gan Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu.



Mae canllawiau i Swyddogion Canlyniadau Ardaloedd yr Heddlu ar ddilysu, cyfrif a choladu canlyniadau i'w gweld yn ein [Canllawiau i Swyddogion Canlyniadau Ardaloedd yr Heddlu: Cyflawni prosesau allweddol](#). Mae canllawiau i Swyddogion Canlyniadau Ardaloedd yr Heddlu ar gynllunio ar gyfer yr etholiad i'w gweld yn ein dogfen [Canllawiau Cynllunio i Swyddogion Canlyniadau Ardaloedd yr Heddlu](#).

## Coladu canlyniadau<sup>3</sup>

1.4 Os mai chi yw'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol hefyd, dylai'r un egwyddorion a amlinellir uchod, sef tryloywder, cywirdeb, amseroldeb, uniondeb a chyfathrebu, fod yn sail i'r gwaith o gynllunio ar gyfer coladu'r canlyniadau a'r ffordd y cânt eu coladu.

1.5 Bydd y ffigurau a ddefnyddir ar gyfer dyrannu seddi rhanbarthol yn rhoi sail ar gyfer canlyniad cywir: lle bo cyfanswm y pleidleisiau a fwriwyd i bob plaid ac ymgeisydd unigol a chyfanswm y pleidleisiau a wrthodwyd ar gyfer pob etholaeth yn y rhanbarth yn cyfateb i gyfanswm y papurau pleidleisio a roddwyd ar y datganiad dilysu ar gyfer yr etholiad rhanbarthol ymhob etholaeth.

1.6 Caiff seddi rhanbarthol eu dyrannu'n gywir: lle ceir ffigurau etholaethol a rhanbarthol cywir gan Swyddogion Canlyniadau Etholaethol ledled y rhanbarth, a lle byddwch chi, fel Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol, yn gwneud cyfrifiad d'Hondt ar sail y ffigurau hyn. Pan fydd cyfrifiad d'Hondt wedi'i gwblhau, byddwch chi, fel Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol, yn dyrannu seddi i'r pleidiau a'r ymgeiswyr rhanbarthol unigol cywir.

1.7 Bydd yr amser a gymerir i bob Swyddog Canlyniadau Etholaethol yn y rhanbarth gwblhau ei broses gyfrif ar gyfer etholiad y Cynulliad yn effeithio'n uniongyrchol ar amseriad y broses o goladu canlyniadau. Wrth ddatblygu eich rhagdybiaethau ar gyfer amseriad y broses o goladu canlyniadau, bydd angen i chi ystyried ffactorau ymarferol perthnasol, megis:

- daearyddiaeth y rhanbarth cyfan
- nifer a maint yr etholaethau yn y rhanbarth
- effaith yr etholiad ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throseddu ac unrhyw etholiadau eraill a gynhelir yn y rhanbarth



Mae mwy o wybodaeth i Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol ar gael ym mharagraffau **7.1 - 7.41**

## 2 Paratoi ar gyfer dilysu a chyfrif pleidleisiau

2.1 Mae'r bennod hon yn trafod y materion cyffredinol y bydd angen i chi eu hystyried wrth baratoi ar gyfer dilysu a chyfrif pleidleisiau yn eich ardal.

<sup>3</sup> Oni nodir fel arall, rydym yn defnyddio 'coladu canlyniadau' drwy'r canllawiau hyn i gyfeirio at y prosesau y bydd y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn eu dilyn er mwyn cael a choladu canlyniadau gan Swyddogion Canlyniadau Etholaethol a'r gwaith dilynol o gyfrifo a dyrannu seddi rhanbarthol.



2.2 Gellir trefnu'r prosesau dilysu a chyfrif mewn sawl ffordd. Yn etholiadau'r Cynulliad, mater i chi fel Swyddog Canlyniadau Etholaethol, mewn trafodaeth â'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol, yw penderfynu pa ddull sydd fwyaf priodol ar gyfer eich amgylchiadau lleol. Yn yr etholiadau ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throseddau, mater i chi fel Swyddog Canlyniadau Lleol, mewn trafodaeth â Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu, yw penderfynu pa ddull sydd fwyaf priodol ar gyfer eich amgylchiadau lleol.

2.3 Os mai chi yw'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol neu Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu hefyd, dylech fod yn fodlon bod cynlluniau dilysu'r Swyddogion Canlyniadau Etholaethol a'r Swyddogion Canlyniadau Lleol yn eich rhanbarth neu ardal yr heddlu wedi'u llunio a'u rheoli'n ddigonol i sicrhau canlyniad cywir y gall pawb ymddiried ynddo.

2.4 Yn y naill achos neu'r llall, dylai eich cynllun prosiect gynnwys eich trefniadau ar gyfer rheoli'r prosesau dilysu a chyfrif.



Dylid darllen y canllawiau hyn ochr yn ochr â'n [pecyn cymorth dilysu a chyfrif](#), sy'n trafod yr agweddau mwy ymarferol ar gyflawni'r prosesau dilysu a chyfrif, yn ogystal â'r penderfyniadau y bydd angen i chi eu gwneud ynghylch y ffordd orau o reoli'r prosesau hyn.

Rydym yn cydnabod nad oes dull 'un ateb i bawb' y gellir ei ddefnyddio wrth gyflawni'r prosesau dilysu a chyfrif mewn etholiad. Mae gan bob ardal ei hamgylchiadau lleol ei hun a fydd yn dylanwadu ar y penderfyniadau y mae'n rhaid i chi eu gwneud wrth gyflawni'r prosesau dilysu a chyfrif. Nod y pecyn cymorth rydym wedi'i ddatblygu yw sicrhau cysondeb o ran canlyniadau, gan ddilyn yr egwyddorion a nodir ym Mhennod 1, a chynnig hyblygrwydd i gydnabod amgylchiadau lleol amrywiol.

2.5 Yn etholiadau'r Cynulliad, fel Swyddog Canlyniadau Etholaethol, chi sy'n gyfrifol am y broses o gyfrif y pleidleisiau ar gyfer etholiad yr etholaeth a'r rhan honno o'r etholiad rhanbarthol a gaiff ei chynnwys yn yr etholaeth<sup>1</sup>.

2.6 Os mai chi yw'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol hefyd, chi sy'n gyfrifol am goladu a chyfrif nifer y pleidleisiau a roddwyd i bob ymgeisydd unigol a phlaidd wleidyddol yn yr etholiad rhanbarthol, yn ogystal â chyfrifo dyraniad y seddi ar gyfer y rhanbarth etholiadol a datgan y canlyniad rhanbarthol<sup>2</sup>.

2.7 Yn yr etholiad ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throseddau, fel Swyddog Canlyniadau Lleol, chi sy'n gyfrifol am broses cyfrif pleidleisiau yn eich ardal bleidleisio (oni bai fod Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu wedi rhoi gwybod y bydd yn cymryd y cyfrifoldeb am hyn) a throsglwyddo cyfanswm lleol yr ardal bleidleisio i Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu<sup>3</sup>.

2.8 Os mai chi yw Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu hefyd, chi sy'n gyfrifol am goladu a chyfrifo'r pleidleisiau a roddwyd i bob ymgeisydd ledled yr ardal bleidleisio ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throseddau a datgan y canlyniad<sup>4</sup>. Cewch hefyd roi gwybod eich bod yn cymryd cyfrifoldeb am y broses o gyfrif y pleidleisiau<sup>5</sup>.



Mae gwybodaeth am rolau a chyfrifoldebau ar gael yn [Rhan A – Rolau a chyfrifoldebau](#) o ganllawiau'r Comisiwn ac yn ein dogfen [Canllawiau Cynllunio i Swyddogion Canlyniadau Ardal yr Heddlu](#).

## Cynllunio ar gyfer y prosesau dilysu a chyfrif

2.9 Fel y nodir yn [Rhan B – Cynllunio a threfnu](#), er mwyn cynllunio'n effeithiol ar gyfer yr etholiad, dylech baratoi cynllun prosiect a gaiff ei drin fel 'dogfen fyw', ei adolygu'n gyson a'i ddefnyddio i fonitro cynnydd.



Os mai chi yw'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol hefyd, dylai eich cynllun hefyd ymdrin â darparu adnoddau ar gyfer y broses o goladu'r canlyniadau a rheoli'r broses honno, gan gynnwys datblygu protocol ar gyfer trosglwyddo a derbyn canlyniadau etholiad y Cynulliad gan Swyddogion Canlyniadau Etholaethol. Mae canllawiau ar goladu canlyniadau ar gael ym mharagraffau **7.1 - 7.41**.

2.10 Dylech sicrhau bod eich cynllun ar gyfer darparu adnoddau ar gyfer y prosesau dilysu a chyfrif, a chyflawni'r prosesau hynny, yn cael ei adolygu'n gyson, gan ystyried cyd-destun penodol yr etholiadau.

2.11 Dylech adolygu eich rhagdybiaethau er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn realistig ac yn gadarn, gan gynnwys eich rhagdybiaethau ynglŷn â'r nifer sy'n pleidleisio, nifer y pleidiau a'r ymgeiswyr, cyflymder a gallu'r staff cyfrif a'r amseriad disgwylidig ar gyfer cwblhau'r camau cyfrif amrywiol. Bydd adolygiad o'r fath yn helpu i lywio asesiad realistig ynghylch p'un a fyddwch yn gallu cyflawni eich cynllun cyffredinol, ac a fydd angen rhoi cynlluniau wrth gefn ar waith a phryd, os o gwbl. Ymhob achos, dylai eich cynllun fod yn ddigon hyblyg i'ch galluogi i ymateb os bydd unrhyw rai o'ch rhagdybiaethau yn newid, gan nodi pa gamau wrth gefn y byddwch yn eu cymryd dan amgylchiadau o'r fath.

2.12 Er mwyn helpu i fagu hyder yn eich cynlluniau ar gyfer y prosesau dilysu a chyfrif, dylech o leiaf rannu gwybodaeth am eich cynlluniau â phleidiau gwleidyddol, cynrychiolwyr etholedig a darpar ymgeiswyr. Er mwyn helpu i reoli disgwyliadau, dylech hefyd nodi ymlaen llaw pa benderfyniadau ynglŷn â rheoli'r broses gyfrif a wneir drwy ymgynghori neu gytuno â phleidiau, ymgeiswyr ac asiantiaid, a dweud yn glir wrthynt ar ba sail y byddwch yn gwneud penderfyniadau. Er enghraifft, gall hyn gynnwys penderfyniadau ynghylch ailgyfrif ac atal y cyfrif. Er y dylech geisio barn y rhai yr effeithir arnynt neu sydd â diddordeb er mwyn llywio'ch penderfyniadau, chi sy'n gyfrifol yn y pen draw am wneud y penderfyniadau.

## Amseriad y prosesau dilysu a chyfrif

2.13 Mae ein [hadroddiad ar amseriad cyfrifon etholiadol](#) yn nodi'r egwyddor gyffredinol a ddylai fod yn sail i benderfyniadau ynglŷn ag amseriad cyfrifon

etholiadol, sef yr angen i sicrhau canlyniad cywir y mae pleidleiswyr, ymgeiswyr a phleidiau gwleidyddol yn ymddiried ynndo.

2.14 Yn etholiadau'r Cynulliad a'r etholiadau ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, rhaid dechrau cyfrif y pleidleisiau cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl diwedd y cyfnod pleidleisio<sup>6</sup>.



Yn yr etholiad ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, gall Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu nodi pryd y mae'n rhaid dechrau dilysu'r papurau pleidleisio. Dylech gysylltu â Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu ar gam cynnar er mwyn trafod a datblygu amseriadau ar gyfer yr holl brosesau dilysu a chyfrif.

2.15 Dylech gysylltu â phleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr ac asiantiaid lleol fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau, er mwyn sicrhau deialog leol ddeallus ynghylch amseriad y prosesau cyfrif yng nghyd-destun yr amgylchiadau lleol. Dylid gwneud penderfyniadau ynghylch amseriad y prosesau cyfrif cyn i'r hysbysiad etholiad gael ei gyhoeddi a dylid rhoi gwybod i'r rhai sydd â diddordeb, gan gynnwys pleidiau gwleidyddol lleol a darlledwyr, ar gam cynnar.

2.16 Mae'n bosibl y ceir disgwyliad ymhlith pleidiau, ymgeiswyr a'r cyfryngau y bydd y canlyniadau'n cael eu datgan cyn gynted â phosibl ar ôl diwedd y cyfnod pleidleisio. Gan gydweithio'n agos â Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu, a'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol os nad chi sy'n cyflawni'r rôl honno, fel y bo'n briodol, bydd angen i chi gynllunio'n ofalus sut i reoli disgwyliadau pleidiau, ymgeiswyr a'r cyfryngau.

2.17 Dylai'r cyfnod a bennir ar gyfer cynnal y prosesau cyfrif fod yn ddigon o amser i chi allu cael digon o adnoddau a chynnal prosesau sydd wedi'u trefnu'n dda, gan sicrhau canlyniadau cywir y gall pleidleiswyr, ymgeiswyr ac asiantiaid ymddiried ynddynt.

2.18 Dylai eich cynllun nodi pwyntiau allweddol yn ystod y broses gyfrif lle byddwch yn adolygu cynnydd yn erbyn yr amserlen ddisgwyliedig. Dylid defnyddio'r adolygiad hwn o gynnydd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am hynt y broses gyfrif i ymgeiswyr ac asiantiaid, yn ogystal â'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol a Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu fel y bo'n briodol.

## Staffio a hyfforddiant

2.19 Er mwyn sicrhau y gall pleidleiswyr fod yn hyderus y caiff eu pleidleisiau eu cyfrif yn y ffordd a fwriadwyd ganddynt, bydd angen i chi sicrhau bod adnoddau priodol ar gael fel y gellir gwneud yn siŵr bod y prosesau dilysu a chyfrif yn amserol.



Er mwyn gallu cyflawni'r canlyniad a nodwyd yn [safon perfformiad 1](#), bydd angen i chi sicrhau bod adnoddau priodol ar gael er mwyn gwneud yn siŵr bod y prosesau dilysu a chyfrif yn amserol.

Er mwyn dangos bod modd sicrhau'r canlyniad, bydd angen i chi nodi sut y caiff y prosesau dilysu a chyfrif eu trefnu a'u rheoli, gan gynnwys y broses a ddilynwyd gennych wrth wneud eich penderfyniad.



Mae rhagor o ganllawiau ar staffio ar gyfer y prosesau dilysu a chyfrif, a hyfforddi staff dilysu a chyfrif, ar gael yn [Rhan B – Cynllunio a threfnu](#).

## Cynllun a chyfarpar yn y lleoliad(au) dilysu a chyfrif

2.20 Dylid hefyd paratoi cynlluniau ar gyfer eich lleoliad(au) dilysu a chyfrif. Bydd cynllun da yn un sydd wedi'i lywio gan y model dilysu a chyfrif y byddwch yn penderfynu ei fabwysiadu, ac sy'n ystyried y llifau gwaith rydych yn bwriadu eu dilyn a'r lle a fydd ar gael i chi.

2.21 Er mwyn i'r rhai a fydd yn bresennol yn y digwyddiadau cyfrif allu bod yn hyderus y caiff y broses gyfrif ei rheoli'n dda ac ymddiried yn y canlyniadau, dylech sicrhau bod y prosesau cyfrif yn dryloyw, gyda phob rhan o'r prosesau dilysu a chyfrif yn digwydd yng ngŵydd pawb sydd â'r hawl i fod yno.

2.22 Dylech sicrhau bod pob darn o gyfarpar, gan gynnwys y cyfarpar a ddefnyddir i drosglwyddo gwybodaeth a chyfansymiau lleol i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol a Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu fel y bo'n briodol, yn cael ei osod a'i brofi cyn y prosesau dilysu a chyfrif. Dylech hefyd sicrhau bod cynlluniau wrth gefn ar waith rhag ofn y bydd y cyfarpar neu'r pŵer yn methu.



Mae rhagor o ganllawiau ar ddewis lleoliadau dilysu a chyfrif ar gael yn [Rhan B – Cynllunio a threfnu](#). I gael canllawiau ymarferol ar sut i gynllunio eich lleoliad(au) dilysu a chyfrif, a rhestr wirio o ddeunyddiau defnyddiol, gweler ein hadnodd dilysu a chyfrif '[Cynllunio ar gyfer prosesau dilysu a chyfrif effeithiol: pecyn cymorth i Swyddogion Canlyniadau](#)'.



Er mwyn gallu cyflawni'r canlyniad a nodwyd yn [safon perfformiad 2](#), bydd angen i chi sicrhau bod y prosesau cyfrif yn dryloyw, gyda phob rhan o'r prosesau dilysu a chyfrif yn digwydd yng ngŵydd pawb sydd â'r hawl i fod yno, gyda gwybodaeth yn cael ei rhoi i'r rhai sy'n bresennol am y prosesau i'w dilyn.

Er mwyn dangos bod modd sicrhau'r canlyniad, bydd angen sicrhau bod gennych gynllun o leoliad y cyfrif a gwybodaeth i'w rhoi i'r rhai sy'n bresennol yn y cyfrif.

## Cyfathrebu yn ystod y prosesau dilysu a chyfrif

2.23 Mae cyfathrebu da mewn sesiynau briffio ar gyfer pleidiau, ymgeiswyr ac asiantiaid cyn y prosesau dilysu a chyfrif, ac yn ystod y digwyddiad ei hun, yn galluogi'r rhai sy'n bresennol i graffu'n briodol ar yr holl brosesau, a bydd hyn yn helpu i fagu hyder. Gall rhoi gwybodaeth am y prosesau i'w dilyn hefyd

helpu i leihau nifer yr ymholiadau a geir gan bleidiau, ymgeiswyr ac asiantiaid – yn enwedig gan bleidiau, ymgeiswyr neu asiantiaid newydd neu ddibrofiad – a thrwy hynny leihau'r pwysau ar y staff.

2.24 Er enghraifft, dylech baratoi a dosbarthu pecyn gwybodaeth i unrhyw un sy'n bresennol yn y cyfrif. Dylech gysylltu â'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol a Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu fel y bo'n briodol er mwyn sicrhau bod y pecyn hefyd yn cynnwys gwybodaeth briodol am sut y caiff canlyniadau etholiad rhanbarthol y Cynulliad a'r etholiad ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throseddu eu cyfrifo a'u datgan.

2.25 Bydd defnyddio system sain i wneud cyhoeddiadau ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd, ble a phryd drwy gydol y prosesau dilysu a chyfrif yn helpu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ymgeiswyr ac asiantiaid ac yn eu hysbysu am unrhyw brosesau penodol yr hoffent arsylwi'n agos arnynt (e.e. cyflwyno dyfarniad ar bapurau pleidleisio amheus). Dylid gwneud cyhoeddiadau yn Gymraeg a Saesneg.

2.26 Er mwyn sicrhau tryloywder o ran y cyfathrebu rhwng staff cyfrif a phobl eraill sy'n bresennol yn y cyfrif (gan gynnwys asiantiaid cyfrif), dylech nodi'n glir mewn cyfarwyddiadau i'r rhai sy'n bresennol yn y cyfrif mai goruchwylwyr cyfrif, yn hytrach na chynorthwyrwyr cyfrif, ddylai ofyn unrhyw gwestiynau.

2.27 Hefyd, os bydd asiantiaid neu arsylwyr yn anfodlon mewn unrhyw ffordd ar y modd y caiff y prosesau eu cyflawni, dylai'r cyfle bob amser fod ar gael iddynt wneud sylwadau'n uniongyrchol i chi cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau y gellir ystyried unrhyw bryderon, rhoi esboniadau a sicrwydd, a chymryd unrhyw gamau unioni os bydd angen.



Er mwyn gallu cyflawni'r canlyniad a nodwyd yn [safon perfformiad 2](#), bydd angen i chi sicrhau bod y prosesau cyfrif yn dryloyw, gyda phob rhan o'r prosesau dilysu a chyfrif yn digwydd yng ngŵydd pawb sydd â'r hawl i fod yno, gyda gwybodaeth yn cael ei rhoi i'r rhai sy'n bresennol am y prosesau i'w dilyn.

Er mwyn dangos bod modd sicrhau'r canlyniad, bydd angen sicrhau bod gennych gynllun o leoliad y cyfrif, gwybodaeth i'w rhoi i'r rhai sy'n bresennol yn y cyfrif a threfniadau ar gyfer rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn y cyfrif.

2.28 Dylech ystyried y canlynol wrth benderfynu pa wybodaeth y byddwch yn ei rhoi i unrhyw un sy'n bresennol wrth ddilysu a chyfrif am y prosesau i'w dilyn, a sut y byddwch yn rhoi'r wybodaeth honno:

- Arddangos poster i gwybodaeth a hysbysfyrddau ymhob rhan o'r lleoliad dilysu a chyfrif. Dylai'r rhain fod yn ddigon mawr i bobl allu eu gweld yn glir, a dylent ddangos yr aelodau allweddol o staff a chynnig trosolwg o'r gweithdrefnau i'w dilyn er mwyn helpu'r rhai sy'n bresennol i wybod beth sy'n digwydd a ble. Efallai y byddwch am gynnwys lluniau ohonoch chi eich hun a'ch staff allweddol er mwyn helpu'r rhai sy'n bresennol i'ch adnabod yn y cyfrif. Gellid hefyd rhoi'r wybodaeth hon cyn y broses gyfrif, er enghraifft, fel rhan o becyn gwybodaeth.

- Darparu cynllun o'r lleoliad, gan ddangos y prif fannau o ddiddordeb i asiantiaid cyfrif ac arsylwyr.
- Penodi aelod o staff i ymateb i ymholiadau a gweithredu fel pwynt cyswllt rhwng ymgeiswyr, asiantiaid, arsylwyr a staff allweddol.
- Darparu taflen sy'n rhestru rhifau'r holl flychau pleidleisio ac enwau'r gorsafoedd pleidleisio y maent yn perthyn iddynt.
- Darparu copi o'r gwaith papur templed ar gyfer dilysu a chyfrif a ddefnyddir i rannu canlyniad y prosesau dilysu a chyfrif, gan nodi ar ba lefel y caiff y wybodaeth ei rhoi (e.e. lefel ward / lefel dosbarth pleidleisio) – a wedyn darparu'r datganiadau dilysu a'r datganiadau o ganlyniadau gwirioneddol ar gyfer etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol a chyfansymiau lleol yr etholiad ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throsedd.



I gael canllawiau ymarferol ar rannu gwybodaeth yn y lleoliad dilysu a chyfrif, gweler ein hadnodd dilysu a chyfrif '[Cynllunio ar gyfer prosesau dilysu a chyfrif effeithiol: pecyn cymorth i Swyddogion Canlyniadau](#)'.

## Rheoli'r rhai sy'n bresennol

2.29 Dylai eich cynlluniau gynnwys systemau ar gyfer rheoli disgwyliadau'r rhai sy'n bresennol wrth ddilysu a chyfrif, er mwyn sicrhau bod pawb sy'n bresennol yn gwybod beth i'w ddisgwyl a beth yw eu rôl. Dylent hefyd nodi sut y byddwch yn cadw cyfrinachedd y bleidlais drwy gydol y prosesau dilysu a chyfrif.

2.30 Dylech sicrhau bod pawb sy'n bresennol yn y cyfrif, gan gynnwys ymgeiswyr, eu gwesteion, asiantiaid etholiadol, asiantiaid cyfrif, arsylwyr a'r cyfryngau, yn cael eu briffio ar y ffordd y cynhelir y broses gyfrif a'r safonau ymddygiad a ddisgwylir ganddynt bob amser, a'u bod yn deall y rhain yn llawn. Dylech nodi'n glir, mewn briffiadau ysgrifenedig ac wyneb yn wyneb ar gyfer y rhai sy'n bresennol, y byddwch yn gwahardd pobl o'r lleoliad cyfrif os bydd eu hymddygiad yn tarfu ar gynnal y cyfrif yn effeithiol<sup>7</sup>. Dylai hyn helpu'r staff cyfrif i gyflawni gweithgareddau dilysu a chyfrif heb ymyrraeth gan asiantiaid cyfrif nac arsylwyr eraill.

2.31 Dylech hefyd benderfynu ar bolisi ynghylch defnyddio ffonau symudol a ffotograffiaeth / ffilmio yn y lleoliad dilysu a rhoi'r wybodaeth hon ymlaen llaw i'r rhai sydd â hawl i fod yn bresennol.

2.32 Dylid rhoi tocynnau neu gardiau mynediad i bawb sydd â hawl i fod yn bresennol yn y cyfrif, ac eithrio arsylwyr achrededig a chynrychiolwyr y Comisiwn, a fydd yn gwisgo bathodynau achrediad pinc neu arian. Dylech ystyried rhoi tocynnau neu gardiau o wahanol liw i'r rhai sy'n bresennol er mwyn gallu gwahaniaethu rhwng pobl sy'n perthyn i wahanol gategoriâu. Gall

hyn fod yn arbennig o ddefnyddiol mewn etholiadau cyfun er mwyn canfod pwy all fod yn bresennol mewn prosesau dilysu a chyfrif penodol.

2.33 Dylech gysylltu â'r heddlu er mwyn sicrhau y bydd eu cynlluniau ar gyfer rheoli'r man cyhoeddus y tu allan i'r lleoliad cyfrif yn galluogi pobl sydd â hawl i fod yn bresennol yn y cyfrif i ddod i mewn i'r lleoliad a gadael yn rhwydd heb unrhyw rwystrau.



Gweler **Pennod 3 – Presenoldeb wrth ddilysu a chyfrif** i gael rhagor o ganllawiau ar bwy sydd â hawl i fod yn bresennol wrth ddilysu a chyfrif.

## Sicrhau diogelwch papurau pleidleisio



Er mwyn gallu sicrhau'r canlyniad a nodwyd yn [safon perfformiad 1](#), bydd angen i chi sicrhau bod papurau pleidleisio'n cael eu storio'n ddiogel bob amser.

Er mwyn dangos bod modd sicrhau'r canlyniad, bydd angen i chi roi trefniadau ar waith ar gyfer storio papurau pleidleisio'n ddiogel.

2.34 Dylech gymryd pob cam angenrheidiol i sicrhau diogelwch y papurau pleidleisio a'r deunydd ysgrifennu perthnasol o'r adeg y bydd gorsafodded pleidleisio yn cau hyd at ddatgan y canlyniadau, yn enwedig lle bydd angen cludo'r papurau pleidleisio o'r broses ddilysu i'r broses gyfrif neu lle bo toriad yn ystod y dydd yn golygu bod angen storio'r papurau pleidleisio rhwng diwedd y broses ddilysu a dechrau'r broses gyfrif.

2.35 Dylech sicrhau bod y papurau pleidleisio yn ddiogel bob amser. Os bydd angen i chi storio papurau pleidleisio, rhaid<sup>8</sup> i chi eu storio dan sêl mewn blychau pleidleisio mewn man diogel, gan ganiatáu i asiantiaid osod eu seliau ar y blychau pleidleisio. Dylech bob amser agor y blychau pleidleisio sydd wedi'u selio o flaen unrhyw ymgeiswyr ac asiantiaid sy'n bresennol, er mwyn iddynt allu bod yn fodlon nad oes neb wedi ymyrryd â'r papurau pleidleisio na'r blychau pleidleisio.

2.36 Dylech gysylltu â'ch Pwynt Cyswllt Unigol yn yr heddlu lleol wrth benderfynu ar y dull mwyaf priodol o sicrhau storio diogel.

2.37 Dylech hefyd roi gwybod i ymgeiswyr ac asiantiaid am eich trefniadau, er mwyn sicrhau eu bod yn ymddiried yn uniondeb y cyfrif.



I gael canllawiau ymarferol ar sicrhau diogelwch blychau pleidleisio a phapurau pleidleisio, gweler ein hadnodd dilysu a chyfrif '[Cynllunio ar gyfer prosesau dilysu a chyfrif effeithiol: pecyn cymorth i Swyddogion Canlyniadau](#)'.





## 3 Presenoldeb wrth ddilysu a chyfrif



Er mwyn gallu cyflawni'r canlyniad a nodwyd yn [safon perfformiad 2](#), bydd angen i chi sicrhau bod y prosesau cyfrif yn dryloyw, gyda phob rhan o'r prosesau dilysu a chyfrif yn digwydd yng ngŵydd pawb sydd â'r hawl i fod yno, gyda gwybodaeth yn cael ei rhoi i'r rhai sy'n bresennol am y prosesau i'w dilyn.

Er mwyn dangos bod modd sicrhau'r canlyniad, bydd angen sicrhau bod gennych gynllun o leoliad y cyfrif, gwybodaeth i'w rhoi i'r rhai sy'n bresennol yn y cyfrif a threfniadau ar gyfer rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn y cyfrif.

### Pwy all fod yn bresennol?

3.1 Bydd y rhai sydd â hawl i fod yn bresennol wrth ddilysu yn cynnwys y rhai sydd â hawl i fod yn bresennol wrth ddilysu ar gyfer y ddau etholiad. Ar ôl i'r broses ddilysu gael ei chwblhau, er mai dim ond y rhai sydd â hawl i arsylwi ar y broses gyfrif berthnasol sydd â hawl i fod yn bresennol wrth i'r pleidleisiau ar gyfer yr etholiad penodol hwnnw gael eu cyfrif, gallwch hefyd ganiatáu i bobl eraill fod yn bresennol (gweler paragraff **3.9** isod).

3.2 Mae gan y bobl ganlynol hawl yn ôl y gyfraith i fod yn bresennol wrth ddilysu a chyfrif yn etholiadau'r Cynulliad:

- chi, fel Swyddog Canlyniadau Etholaethol, a'ch staff
- y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol a'i staff
- ymgeiswyr (ac un unigolyn arall a ddewisir gan bob un ohonynt)
- asiantiaid etholiadol (Is-asantiaid)
- asiantiaid cyfrif
- cynrychiolwyr y Comisiwn
- arsylwyr achrededig
- unrhyw unigolyn arall a gaiff ganiatâd gennych chi, fel Swyddog Canlyniadau Etholaethol, i fod yn bresennol (gweler paragraff **3.9** isod)<sup>9</sup>

3.3 Fel Swyddog Canlyniadau Etholaethol, rhaid i chi hysbysu'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn ysgrifenedig am amser a lleoliad y broses o ddilysu a chyfrif pleidleisiau etholiad rhanbarthol y Cynulliad<sup>10</sup>. Rhaid i chi hefyd hysbysu'r asiantiaid cyfrif etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throsedd a benodir yn ysgrifenedig am amser a lleoliad prosesau dilysu a chyfrif y pleidleisiau<sup>11</sup>.



Mae paragraff **7.6** isod yn rhoi manylion pwy all fynd i ddigwyddiad coladu canlyniadau rhanbarthol.

3.4 Mae gan y bobl ganlynol hawl yn ôl y gyfraith i fod yn bresennol wrth ddilysu a chyfrif yn yr etholiad ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throseddau:

- chi a'ch staff
- Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu a'i staff
- ymgeiswyr
- un gwestai i bob ymgeisydd
- asiantiaid etholiadol (neu is-asiantiaid ar eu rhan)
- asiantiaid cyfrif
- Cynrychiolwyr y Comisiwn
- arsylwyr achrededig
- unrhyw unigolyn arall a gaiff ganiatâd gennych chi i fod yn bresennol (gweler paragraff **3.9** isod)<sup>12</sup>

3.5 Fel Swyddog Canlyniadau Lleol, rhaid i chi hysbysu asiantiaid cyfrif a benodir am amser a lleoliad y prosesau dilysu a chyfrif<sup>13</sup> a, lle y bo'n briodol, amser a lleoliad y broses o gyfrif y pleidleisiau ail ffafriaeth<sup>14</sup>, os bydd angen.

3.6 Rhaid i chi roi cyfleusterau rhesymol i asiantiaid cyfrif ar gyfer goruchwylio'r broses o ddilysu a chyfrif y pleidleisiau<sup>15</sup>. Dylech hefyd sicrhau bod unrhyw un arall sydd â hawl i fod yn bresennol yn gallu gweld yr hyn sy'n digwydd yn glir, gan sicrhau hefyd na fydd modd iddynt ymyrryd â gwaith eich staff.

3.7 Dylech gymryd pob cam angenrheidiol i sicrhau nad oes neb sy'n bresennol yn ymyrryd â chyfrinachedd y bleidlais nac yn ei pheryglu. Rhaid i chi wneud y trefniadau sydd orau yn eich tyb chi er mwyn sicrhau bod pawb sy'n bresennol yn cael copi o'r gofynion cyfrinachedd perthnasol ar gyfer etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r etholiadau ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throseddau, fel y bo'n briodol<sup>16</sup>.

3.8 Nid oes gofyniad i'r rhai sy'n bresennol gyrraedd erbyn amser penodol, felly dylid gadael i'r rhai sydd â hawl i fod yn bresennol ddod i mewn pryd bynnag y byddant yn cyrraedd. Hefyd, dylai fod gweithdrefn ar waith er mwyn sicrhau nad oes neb sydd am adael a dychwelyd yn nes ymlaen yn cael ei rwystro rhag gwneud hynny.


3.9 Gallwch ganiatáu i bobl eraill fod yn bresennol yn y digwyddiad, yn ôl eich disgrisiwn, os byddwch yn fodlon na fydd hynny'n amharu ar y gwaith o ddilysu neu gyfrif pleidleisiau'n effeithlon ac, yn achos y cyfrif, eich bod naill ai wedi ymgynghori â'r asiantiaid etholiadol ymlaen llaw neu wedi ystyried bod hynny'n anymarferol<sup>17</sup>.

## Rheoli mynediad

3.10 Dylech roi rhestrau o'r bobl hynny sydd â hawl i fod yn bresennol yn y prosesau dilysu a chyfrif i'r rheini sydd ar ddyletswydd wrth y fynedfa, a chyfarwyddo staff diogelwch i wirio tocynnau neu gardiau unrhyw un sy'n ceisio cael mynediad.

3.11 Fodd bynnag, dylid hefyd hysbysu staff diogelwch nad oes angen i gynrychiolwyr y Comisiwn nac arsylwyr achrededig roi gwybod ymlaen llaw ble maent yn bwriadu arsylwi ac felly na fydd eu henwau o bosibl yn ymddangos ar y rhestr, ond, er hynny, bod ganddynt hawl i gael mynediad i'r lleoliad dilysu a chyfrif os byddant yn dangos eu bathodyn adnabod arsylwr neu gynrychiolydd y Comisiwn.

3.12 Am resymau iechyd a diogelwch, dylech gofnodi enw pawb sy'n bresennol wrth ddilysu a chyfrif mewn gwirionedd.



Mae rhagor o ganllawiau ar arsylwyr achrededig a chynrychiolwyr y Comisiwn, gan gynnwys canllaw cyflym ar fathau o fathodynau arsylwyr, ar gael yn [Rhan B – Cynllunio a threfnu](#).

## Asiantiaid cyfrif



Mae canllawiau ar benodi asiantiaid cyfrif ar gael yn [Rhan C – Gweinyddu'r etholiad](#).

3.13 Rhaid i chi roi cyfleusterau rhesymol i asiantiaid cyfrif ar gyfer goruchwylio'r broses o ddilysu a chyfrif y pleidleisiau, a rhoi'r wybodaeth berthnasol iddynt<sup>18</sup>. Yn arbennig, lle caiff pleidleisiau eu cyfrif drwy ddidoli'r papurau pleidleisio fesul ymgeisydd (neu, yn achos yr etholiad rhanbarthol, fesul plaid gofrestredig ac ymgeisydd rhanbarthol unigol), ac yna drwy gyfrif pob set o bapurau pleidleisio, mae gan yr asiantiaid cyfrif hawl i ddisgwyl bod y papurau pleidleisio wedi'u didoli'n gywir<sup>19</sup>.

## Arsylwyr achrededig

3.14 Mae arsylwi etholiadol yn rhan ddilys a gwerthfawr o'r broses etholiadol a dylid gofalu na chaiff arsylwyr eu rhwystro na'u hatal rhag arsylwi. Er y cewch gyfyngu ar nifer yr arsylwyr a gaiff fod yn bresennol ar unrhyw adeg yn ystod y prosesau dilysu a chyfrif, dylech fod yn ofalus wrth wneud hynny. Nid oes gennych hawl i rwystro pob arsylwr rhag bod yn bresennol wrth ddilysu a chyfrif, dim ond cyfyngu ar nifer yr arsylwyr sy'n bresennol ar unrhyw adeg, a rhaid defnyddio'r disgresiwn hwn mewn modd rhesymol<sup>20</sup>.

3.15 Rhaid i chi ystyried [Cod ymarfer y Comisiwn i arsylwyr](#) wrth reoli presenoldeb arsylwyr<sup>21</sup>.



Mae rhagor o ganllawiau ar arsylwyr achrededig ar gael yn [Rhan B – Cynllunio a threfnu](#).

# Cynrychiolwyr y Comisiwn

3.16 Mae gan gynrychiolwyr y Comisiwn hawl i fod yn bresennol wrth ddilysu a chyfrif ac i arsylwi ar eich arferion gwaith<sup>22</sup>. Cânt ofyn cwestiynau i'ch staff ac i asiantiaid, ond ni fyddant yn gwneud hynny os byddai hynny'n atal y broses neu'n tarfu arni. Ni chewch gyfyngu ar nifer cynrychiolwyr y Comisiwn yn y prosesau dilysu a chyfrif.

## Y cyfryngau

3.17 Dylech gynnwys lle a chyfle i'r cyfryngau adrodd ar ganlyniadau'r etholiadau. Mae gennych ryddid i benderfynu pa rai o gynrychiolwyr y cyfryngau a gaiff fod yn bresennol<sup>23</sup>. Fel yn achos pawb sy'n bresennol, rhaid i chi sicrhau nad yw cynrychiolwyr y cyfryngau yn ymyrryd â'r broses nac yn peryglu cyfrinachedd y bleidlais<sup>24</sup>.

3.18 Dylech sicrhau bod eich tîm cysylltiadau cyhoeddus yn bresennol i ddelio ag ymholiadau'r cyfryngau. Dylech wneud yn siŵr eu bod yn gwybod â phwy i gysylltu os gofynnir unrhyw gwestiynau etholiadol technegol iddynt.

3.19 Yn ogystal â gwneud trefniadau ymarferol er mwyn iddynt fod yn bresennol, dylai unrhyw gysylltiad cynnar â'r cyfryngau hefyd gynnwys esboniad o'r prosesau i'w dilyn a'r amseroedd gorffen a datgan disgwylidig ar gyfer pob proses gyfrif.

3.20 Os bydd cynrychiolwyr y cyfryngau wedi'u hachredu gan y Comisiwn fel arsylwyr a'u bod yn bresennol yn rhinwedd y rôl honno, mae ganddynt yr un hawliau a rhwymedigaethau ag unrhyw arsylwr achrededig arall. Fel unrhyw arsylwyr eraill, mae'n ofynnol iddynt ystyried [Cod ymarfer y Comisiwn i arsylwyr](#) a dylent gydymffurfio ag unrhyw benderfyniad a wnewch ynghylch defnyddio ffonau symudol, camerâu ac offer recordio arall.



I gael canllawiau ymarferol ar gysylltu â'r cyfryngau, gweler ein hadnodd dilysu a chyfrif '[Cynllunio ar gyfer prosesau dilysu a chyfrif effeithiol: pecyn cymorth i Swyddogion Canlyniadau](#)'.



Os mai chi yw'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol hefyd, dylai eich cynllun drafod presenoldeb yn ystod y broses o goladu canlyniadau. Mae mwy o ganllawiau ar goladu canlyniadau ar gael ym mharagraffau **7.1 - 7.41**

# 4 Derbyn deunyddiau o'r gorsafoedd pleidleisio a blychau papurau pleidleisio post wedi'u selio



Er mwyn gallu sicrhau'r canlyniad a nodwyd yn [safonau perfformiad 1 a 2](#), bydd angen i chi sicrhau y caiff prosesau cyfrif eu cynllunio a'u rheoli er mwyn sicrhau canlyniad cywir, gyda thrywydd archwilio clir.

Er mwyn dangos bod modd sicrhau'r canlyniad, bydd angen i chi gael trefniadau ar waith i gynnal trywydd archwilio clir o'r prosesau cyfrif.

4.1 Wrth baratoi, dylech lunio templedi ar gyfer pob dogfen a gaiff ei chwblhau yn ystod y prosesau dilysu a chyfrif a rhoi trywydd archwilio clir. Ceir rhagor o ganllawiau ar sicrhau trywydd archwilio clir o'r prosesau cyfrif yn y rhan hon, ym **Mhennod 5 - Dilysu** ac ym **Mhennod 6 - Y broses** gyfrif.

4.2 Mae derbyn blychau pleidleisio a deunyddiau oddi wrth orsafoedd pleidleisio mewn ffordd gywir a threfnus yn elfen allweddol o broses ddilysu gywir. Dylai'ch tîm o staff sy'n derbyn deunyddiau oddi wrth orsafoedd pleidleisio ddefnyddio rhestr wirio er mwyn sicrhau eu bod yn cyfrif am yr holl flychau pleidleisio a phapurau pleidleisio yn gywir, yn ogystal ag unrhyw becynnau sy'n cynnwys pleidleisiau post a roddwyd i staff gorsafoedd pleidleisio.

4.3 Lle y bydd yn ofynnol i Swyddogion Llywyddu gludo'r blychau pleidleisio i'r lleoliad dilysu, dylid egluro i'r staff sy'n derbyn y blychau pleidleisio na ddylid caniatáu i unrhyw Swyddogion Llywyddu adael nes bod eu blwch/blychau pleidleisio a'r holl ddogfennau a pheccynnau wedi cael eu derbyn a'u gwirio gan yr aelod dynodedig o staff a, lle bynnag y bo modd, eu bod wedi bwrw golwg yn fras dros y cyfrifon papurau pleidleisio. Dylid cyfarwyddo'r staff sy'n derbyn blychau pleidleisio i sicrhau eu bod yn cael y cyfrif papurau pleidleisio ar gyfer pob blwch pleidleisio.

4.4 Ar ôl eu derbyn, gellir trosglwyddo'r cyfrifon papurau pleidleisio i'r staff sy'n ymwneud â rheoli'r broses o ddilysu blychau pleidleisio a gall yr holl ddeunyddiau a dderbyniwyd o'r gorsafoedd pleidleisio gael eu rhyddhau gan y staff sy'n eu derbyn a'u rhoi i'r timau perthnasol, sy'n ei gwneud yn bosibl i'r broses o ddilysu'r papurau pleidleisio nas defnyddiwyd ac agor pleidleisiau post ddechrau.

4.5 Dylai'r sachau sy'n cynnwys y dogfennau y mae angen eu storio, megis rhestrau rhifau cyfatebol wedi'u selio, gael eu gwahanu oddi wrth y rhai sy'n cynnwys eitemau a gaiff eu hailddefnyddio, megis deunyddiau ysgrifennu

cyffredinol. Dylai'r pecynnau a'r parseli o'r gorsafoedd pleidleisio gael eu trefnu mewn ffordd sy'n ei gwneud yn hawdd dod o hyd i unrhyw becyn.

4.6 Rhaid i bob pecyn o bapurau pleidleisio a ddifethwyd a phapurau pleidleisio nas defnyddiwyd gael ei agor a'i gyfrif ac yna'i selio<sup>25</sup>, gyda'r niferoedd a gyfrifwyd yn cael eu rhoi i'r aelodau hynny o staff sy'n gyfrifol am y broses ddilysu. Cewch eich gwahardd rhag agor y pecynnau wedi'u selio o bapurau pleidleisio a gyflwynwyd, ond rhaid i chi agor y pecyn sy'n cynnwys y rhestr o bleidleisiau a gyflwynwyd er mwyn gwirio'r rhestr yn erbyn y cyfrifon papurau pleidleisio ac yna'i ailselio<sup>26</sup>.

4.7 Ni chaniateir i chi agor y pecynnau wedi'u selio sy'n cynnwys y rhestrau rhifau cyfatebol a'r tystysgrifau cyflogaeth, y copiâu wedi'u marcio o'r gofrestr a'r rhestrau o ddirprwyon. Dylech sicrhau bod y deunyddiau y mae'n rhaid i chi gadw dan sêl wedi'u gosod mewn man penodol a diogel tra pery'r prosesau dilysu a chyfrif.

## Derbyn y blychau papurau pleidleisio post wedi'u selio

4.8 Bydd papurau pleidleisio post a gafodd eu derbyn a'u hagog yn gynharach wedi cael eu prosesu a dylid dod â hwy i'r lleoliad dilysu mewn blychau pleidleisio wedi'u selio, ynghyd â chyfrif papurau pleidleisio ar gyfer pob blwch pleidleisiau post. Dylai'r staff sy'n derbyn y blychau pleidleisiau post ddefnyddio rhestr wirio er mwyn sicrhau y cyfrifir am bob blwch pleidleisio post a phob cyfrif papurau pleidleisio post yn gywir.

4.9 Rhaid i bob pecyn a phob blwch pleidleisio sy'n cynnwys papurau pleidleisio drwy'r post hefyd gael eu dilysu yn yr un modd ag unrhyw flwch pleidleisio o orsaf bleidleisio<sup>27</sup>. Gan y bydd y rhain yn aml ymhlith y blychau cyntaf i'w dilysu, maent yn cynnig cyfle i ennyn hyder yn y broses ac yn y cyfrif yn gyffredinol.

# 5 Dilysu

5.1 Mae i ddilysu ddau brif ddiben - sicrhau a dangos bod yr holl bapurau pleidleisio a ddsbarthwyd mewn gorsafoedd pleidleisio a'r holl bapurau pleidleisio post a ddychwelwyd wedi cael eu cludo i'r cyfrif, a rhoi'r ffigur y dylai canlyniad y cyfrif fod yn gyson ag ef. Dylech gofio am y ddau ddiben wrth gynnal y broses ddilysu.

5.2 Dylai hyfforddiant i Swyddogion Llywyddu ar gwblhau cyfrifon papurau pleidleisio, ynghyd â chyfrifon papurau pleidleisio sydd wedi'u paratoi mewn fformat clir a hawdd ei gwblhau, helpu i roi sylfaen gadarn dros y broses ddilysu



Ceir gwybodaeth am hyfforddi staff gorsafoedd pleidleisio yn [Rhan B – Cynllunio a threfnu](#).

5.3 Mae dilysu'r papurau pleidleisio a ddefnyddiwyd, nas defnyddiwyd ac a ddifethwyd yn ofyniad cyfreithiol<sup>28</sup>, ac mae'n ganolog i'r broses o ddatgan canlyniadau cywir. Caiff dilysu papurau pleidleisio etholiadau'r Cynulliad a Chomisinwyr yr Heddlu a Throseddau ei wneud gan y Swyddog Canlyniadau Etholaeth

5.4 Rhaid i chi ddilysu pob cyfrif papurau pleidleisio a pharatoi datganiad am ganlyniad y broses ddilysu ar gyfer pob etholiad<sup>29</sup>. Mae'r datganiadau yn gofnod o nifer y papurau pleidleisio a ddisgwyliwyd a nifer y papurau pleidleisio a gyfrifwyd, ynghyd ag esboniad o unrhyw amrywiadau.

5.5 Caiff unrhyw asiant sy'n bresennol yn y broses ddilysu wneud copi o'r datganiadau, dylech sicrhau bod copiâu ar gael i'r asiantiaid sy'n bresennol ar ôl i'r broses ddilysu gael ei chwblhau, a dylech roi copi o'r datganiadau i unrhyw asiant sy'n bresennol, ar gais. Mae'r datganiadau dilysu yn adnodd cyfathrebu allweddol a fydd yn helpu i sicrhau bod ymgeiswyr ac asiantiaid yn hyderus bod y prosesau dilysu a chyfrif yn dryloyw ac y byddant yn arwain at ganlyniadau cywir.

5.6 Lle bo blychau pleidleisio ar wahân wedi cael eu defnyddio ar gyfer gwahanol etholiadau, dylai'r blychau pleidleisio o'r un orsaf pleidleisio gael eu dilysu naill ai ar yr un pryd ar fyrddau cyfagos neu un ar ôl y llall ar yr un bwrdd.

5.7 Mae'r gyfraith yn darparu na chaiff papur pleidleisio ei ystyried yn annilys am ei fod wedi cael ei roi yn y blwch 'anghywir' yn unig<sup>30</sup>. Felly, dylech sicrhau bod gennych weithdrefn ar waith er mwyn symud unrhyw bapurau pleidleisio y mae etholwyr wedi eu rhoi yn y blwch pleidleisio 'anghywir' i'r blwch pleidleisio cywir yn ystod y broses ddilysu, a hynny mewn modd tryloyw.

5.8 Os gofynnwyd i etholwyr roi eu holl bapurau pleidleisio yn yr un blwch:

- a. rhaid didoli'r papurau pleidleisio i'w priod etholiadau a ymleddir<sup>31</sup>

- b. dylid cwblhau'r weithdrefn ddilysu ar gyfer pob etholiad unigol (h.y. ei chwblhau ar gyfer etholiad y Cynulliad ac etholiad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu)
- c. rhaid i'r datganiadau dilysu gynnwys cyfanswm nifer y papurau pleidleisio drwy'r post ar wahân i'r cyfanswm a ddilyswyd ar gyfer pob etholiad yn ei gyfanrwydd<sup>32</sup>
- d. ar ôl dilysu'r holl flychau pleidleisio o orsafoedd pleidleisio a'r holl flychau pleidleisio drwy'r post ar gyfer pob etholiad a ymleddir, a pharatoi'r datganiadau dilysu, rhaid rhoi'r papurau pleidleisio ar gyfer etholiad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu mewn cynwysyddion, eu selio a'u storio'n ddiogel nes i'r pleidleisiau gael eu cyfrif<sup>33</sup>

5.9 Os gofynnwyd i etholwyr ddefnyddio blychau pleidleisio gwahanol ar gyfer pob etholiad:

- a. dylid dilysu'r gwahanol flychau pleidleisio ar yr un pryd, naill ai ar fyrddau cyfagos ar yr un pryd â'i gilydd neu un ar ôl y llall ar yr un bwrdd
- b. dylai unrhyw bapur pleidleisio a roddwyd yn y blwch 'anghywir' gael ei symud i'r blwch pleidleisio cywir
- c. rhaid i'r datganiadau dilysu gynnwys cyfanswm nifer y papurau pleidleisio drwy'r post ar wahân i'r cyfanswm a ddilyswyd ar gyfer pob etholiad yn ei gyfanrwydd<sup>34</sup>
- d. ar ôl dilysu'r holl flychau pleidleisio o orsafoedd pleidleisio a'r holl flychau pleidleisio drwy'r post ar gyfer pob etholiad, a pharatoi'r datganiadau dilysu, rhaid gwahanu'r papurau pleidleisio ar gyfer etholiad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu eu rhoi mewn cynwysyddion, eu selio a'u storio'n ddiogel nes i'r pleidleisiau gael eu cyfrif<sup>35</sup>

5.10 Fel gyda phob agwedd ar y broses dilysu a chyfrif, mae tryloywder yn allweddol a dylai'r broses a ddilynwyd fod yn glir i bawb sy'n bresennol.

5.11 Caiff yr ymgeiswyr a'r asiantiaid ar gyfer pob etholiad fod yn bresennol wrth i'r blychau pleidleisio gael eu dilysu. Lle caiff cynwysyddion o bapurau pleidleisio a ddilyswyd eu selio ar gyfer eu storio a'u cyfrif yn nes ymlaen, mae gan ymgeiswyr ac asiantiaid hawl i ychwanegu eu seliau eu hunain.

5.12 Mae camau allweddol y broses ddilysu fel a ganlyn:

- a. Rhaid i staff agor y pecynnau o bapurau pleidleisio nas defnyddiwyd a chadarnhau nifer y papurau pleidleisio nas dosbarthwyd drwy nodi nifer y llyfrau a nifer y papurau pleidleisio sy'n weddill mewn unrhyw lyfr rhannol o bapurau pleidleisio y tu mewn i'r pecyn. Rhaid i'r pecynnau o bapurau pleidleisio a ddifethwyd gael eu hagor hefyd a rhaid cyfrif nifer y papurau. Rhaid i'r pecynnau papurau pleidleisio



nas defnyddiwyd a'r pecynnau papurau pleidleisio a ddifethwyd gael eu hailselio ar ôl iddynt gael eu cyfrif<sup>36</sup>.

- b. Rhaid i'r staff dorri'r seliau ac agor y blychau pleidleisio ym mhresenoldeb unrhyw asiantiaid cyfrif ac arsylwyr sy'n bresennol<sup>37</sup>. Pan fydd asiant wedi atodi sêl i flwch ar ddiwedd y cyfnod pleidleisio, dylid cymryd gofal mawr i ddangos i unrhyw asiantiaid ac arsylwyr sy'n bresennol bod y sêl hon heb ei thorri cyn iddi gael ei thorri. Dylid arllwys y papurau pleidleisio yn ofalus ar y bwrdd, gan sicrhau nad oes yr un wedi syrthio i'r llawr a bod y blwch yn wag.
- c. Rhaid sicrhau bod y papurau pleidleisio yn wynebu i fyny ar bob adeg yn ystod y prosesau dilysu a chyfrif<sup>38</sup>.
- d. Dylech sicrhau bod y blwch gwag yn cael ei ddangos i'r asiantiaid a'r arsylwyr fel y gallant fod yn fodlon bod y blwch yn wirioneddol wag. Yna dylai'r cynorthwywyr cyfrif agor y papurau pleidleisio a'u cyfrif yn fwndeli<sup>39</sup>. Mae cywirdeb ar y cam hwn yn hollbwysig, felly dylai'r bwndeli gael eu trosglwyddo i gynorthwydd arall i'w hailgyfrif. Dylai unrhyw bapurau pleidleisio a gyflwynwyd a roddwyd yn y blwch pleidleisio ar gam gael eu tynnu oddi yno a'u rhoi i'r goruchwyliwr.
- e. Rhaid i'r cyfanswm a roddwyd ar y cyfrif papurau pleidleisio gael ei gymharu â nifer y papurau pleidleisio a gyfrifwyd ac y cofnodwyd eu bod yn bresennol y tu mewn i'r blwch pleidleisio<sup>40</sup>. Rhaid i chi gymharu'r papurau pleidleisio nas defnyddiwyd a'r papurau pleidleisio a ddifethwyd, yn ogystal â'r rhestr o bleidleisiau a gyflwynwyd, â'r ffigurau ar bob cyfrif papurau pleidleisio<sup>41</sup>. Dylai cyfanswm nifer y papurau pleidleisio yn y blwch pleidleisio fod yn gyson â'r cyfanswm ar y cyfrif papurau pleidleisio, ac yn gyson â chyfanswm nifer y papurau pleidleisio nas defnyddiwyd.

5.13 Os na fydd cyfrif papurau pleidleisio yn gyson, dylech ddilyn y weithdrefn ganlynol a dogfennu'r canlyniad ar y datganiad dilysu priodol:

- a. Gwiriwch y symiau adio ar y cyfrif papurau pleidleisio yn llawn ynghyd â nifer y papurau pleidleisio nas defnyddiwyd. Edrychwch ar y pecynnau eraill o ddeunyddiau a ddychwelwyd ac unrhyw gofnodlyfr gan yr orsaf bleidleisio er mwyn ceisio nodi unrhyw reswm dros bapurau pleidleisio coll neu ychwanegol. Sicrhewch nad yw'r papurau pleidleisio drwy'r post a ddychwelwyd wedi cael eu hychwanegu at nifer y pleidleisiau a fwriwyd yn yr orsaf bleidleisio. Dylech ystyried cysylltu â'r Swyddog Llywyddu a gofyn iddo/iddi geisio esbonio unrhyw anghysonderau.
- b. Edrychwch ar y cofnod o flychau pleidleisio a ddosbarthwyd i weld a gafodd mwy nag un blwch pleidleisio ei ddosbarthu i'r orsaf bleidleisio a sicrhewch fod yr holl flychau a ddyrannwyd i'r orsaf yn cael eu hagor ac y cyfrifir amdanynt.
- c. Gwiriwch y blychau pleidleisio ar gyfer yr holl etholiadau a ymleddir yn yr holl orsafoedd pleidleisio yn yr un man pleidleisio. Efallai y

bydd y broses o ddilysu'r cyfrifon papurau pleidleisio ar gyfer y gorsafoedd pleidleisio eraill yn y lleoliad hwnnw yn dangos gwall cydadferol am fod etholwyr wedi gosod eu papur pleidleisio yn y blwch 'anghywir' neu mewn blwch o'r orsaf bleidleisio anghywir. Os bydd y gwallau cydadferol yn gwrthbwysu ei gilydd, gellir tybio bod y broses ddilysu yn llwyddiannus.

- d. Os daw'r blwch pleidleisio o un orsaf bleidleisio, neu os nad oes unrhyw wall cydadferol yn ffigurau'r orsaf bleidleisio arall/gorsafoedd pleidleisio eraill yn y man pleidleisio hwnnw, ail-gyfrifwch y papurau pleidleisio yn y blwch o leiaf ddwywaith eto, neu hyd nes bod yr un ffigur yn cael ei gyfrif ar ddau achlysur yn olynol.
- e. Os bydd unrhyw anghysondeb o hyd, ar ôl dilyn y gweithdrefnau a amlinellir uchod, defnyddiwch nifer y papurau pleidleisio a gyfrifwyd ac a ail-gyfrifwyd gan y staff cyfrif fel y ffigur a ddilyswyd a gwnewch nodyn priodol ar y cyfrif papurau pleidleisio.
- f. Ychwanegwch y cyfanswm a ddilyswyd a'r amrywiad rhwng hwnnw a'r nifer ar y cyfrif papurau pleidleisio at y datganiad am ganlyniad y broses ddilysu, gan esbonio pam bod yr amrywiad hwnnw wedi digwydd os oes modd, a thrafodwch hyn ag unrhyw asiantiaid ac arsylwyr sy'n bresennol.

5.14 Dim ond ar ôl i'r papurau pleidleisio post, gan gynnwys y rhai a dderbyniwyd mewn gorsafoedd pleidleisio, gael eu hagor a'u prosesu, a'u dilysu, y gellir cwblhau'r broses ddilysu<sup>42</sup>.

5.15 Rhaid i chi sicrhau bod datganiad dilysu, sy'n cynnwys canlyniad y broses o ddilysu pob blwch pleidleisio, yn cael ei gwblhau ar gyfer pob etholiad<sup>43</sup>. Ym mhob achos, rhaid i'r datganiadau gynnwys cyfanswm nifer y papurau pleidleisio drwy'r post a chyfanswm nifer y papurau pleidleisio a ddilyswyd ar gyfer pob etholiad yn ei gyfanrwydd<sup>44</sup>. Dylech lofnodi'r datganiadau a chaiff unrhyw asiant sy'n bresennol wneud copi o'r datganiadau ynghylch canlyniad y broses ddilysu. Dylech sicrhau bod copïau ar gael i'r asiantiaid sy'n bresennol ar ôl i'r broses ddilysu gael ei chwblhau a dylech roi copi o'r datganiadau i unrhyw asiant sy'n bresennol, ar gais.

5.16 Fel Swyddog Canlyniadau Lleol, rhaid i chi anfon copi o'r datganiad dilysu ar gyfer etholiad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu at Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu. Bydd Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu yn rhoi arweiniad i chi ynghylch sut y dylid gwneud hyn.

5.17 Ar ôl cwblhau'r broses ddilysu, os na fyddwch yn dechrau cyfrif y pleidleisiau ar unwaith, dylech roi'r papurau pleidleisio a dogfennau eraill mewn pecynnau diogel a rhoi eich sêl eich hun arnynt, yn ogystal â sêl unrhyw asiantiaid sy'n bresennol sy'n dymuno atodi eu seliau eu hunain. Dylech gymryd pob cam angenrheidiol i sicrhau diogelwch y papurau pleidleisio a'r deunyddiau ysgrifennu perthnasol yn ystod unrhyw doriad yn ystod y prosesau dilysu a chyfrif.

5.18 Os bydd y broses gyfrif ar gyfer etholiad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn digwydd mewn lleoliad gwahanol i'r broses ddilysu, rhaid i chi roi'r holl papurau pleidleisio wedi'u dilysu mewn pecynnau diogel, megis

blychau pleidleisio, i'w cludo i'r lleoliad cyfrif<sup>45</sup>. Rhaid rhoi enw eich ardal bleidleisio ac enw ardal yr heddlu ar y pecynnau hyn<sup>46</sup>. Gallwch gysylltu â Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu i drafod trefniadau penodol ar gyfer cludo'r papurau pleidleisio wedi'u dilysu i'r lleoliad cyfrif. Hefyd, rhaid i chi gadw cofnod o'r holl becynnau o bapurau pleidleisio wedi'u dilysu rydych yn eu cludo i leoliad cyfrif yr etholiad ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a chynnwys pob un ohonynt. Rhaid i chi anfon y cofnod hwn, y cyfrifon papurau pleidleisio a chopi o'r datganiad terfynol o ganlyniad y broses ddilysu i leoliad cyfrif yr etholiad ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, ynghyd â'r pecynnau o bapurau pleidleisio wedi'u dilysu<sup>47</sup>.

5.19 Dylech drafod â Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu er mwyn cytuno ar y trefniadau ar gyfer cludo'r pecynnau ar gyfer etholiad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, gan gynnwys enwau'r personél a fydd yn rhan o'r broses. Ar ôl i'r pecynnau o bapurau pleidleisio wedi'u dilysu gyrraedd lleoliad y cyfrif, mae'n bosibl y bydd Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu yn gofyn i chi ddilysu cynnwys pob pecyn cyn i'r pleidleisiau hyn gael eu cyfrif.

5.20 Ceir rhagor o ganllawiau ar sicrhau diogelwch blychau pleidleisio ym mharagraff Error! Reference source not found. uchod ac yn ein hadnodd dilysu a chyfrif '[Cynllunio ar gyfer dilysu a chyfrif effeithiol: pecyn cymorth i Swyddogion Canlyniadau](#)'.

# 6 Y broses gyfrif

## Cyfrif y pleidleisiau

6.1 Yn etholiadau'r Cynulliad a'r etholiad ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, rhaid dechrau cyfrif y pleidleisiau cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl diwedd y cyfnod pleidleisio<sup>48</sup>. Rhaid cwblhau'r broses o ddilysu'r holl bapurau pleidleisio ar gyfer pob etholiad a ymleddir yn yr etholaeth - etholiadau etholaethol a rhanbarthol y Cynulliad a'r etholiad ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd - cyn dechrau cyfrif unrhyw bleidleisiau<sup>49</sup>.

6.2 Os bu toriad yn ystod y dydd - er enghraifft, lle nad yw'r pleidleisiau'n cael eu cyfrif yn syth ar ôl y broses ddilysu - dylid agor pob blwch wedi'i selio yng ngolwg unrhyw ymgeiswyr ac asiantiaid sy'n bresennol. Pan fydd asiant wedi atodi sêl i flwch, dylid cymryd gofal mawr i ddangos i unrhyw asiantiaid sy'n bresennol bod y sêl hon heb ei thorri cyn iddi gael ei thorri.

6.3 Dylai pob proses gyfrif fod yn dryloyw. Dylech roi cyfleoedd priodol i'r rhai sydd â'r hawl i arsylwi a gwrthwynebu dyfarniadau ar bapurau pleidleisio amheus. Dylai hyn gynnwys sicrhau y caiff bwndeli o bapurau pleidleisio wedi'u cyfrif eu storio yng ngolwg asiantiaid cyfrif mewn ffordd sy'n eu galluogi i fonitro cynnydd drwy gydol y cyfrif.

## Cymysgu

6.4 Rhaid i chi gymysgu'r papurau pleidleisio er mwyn sicrhau bod papurau pleidleisio o bob blwch pleidleisio wedi'u cymysgu â phapurau pleidleisio o un blwch pleidleisio arall o leiaf, a chymysgu'r papurau pleidleisio drwy'r post â phapurau pleidleisio o un blwch pleidleisio arall o leiaf cyn didoli a chyfrif y pleidleisiau. Dylech gadw'r papurau pleidleisio ar gyfer pob etholiad a ymleddir ar wahân i'w gilydd<sup>50</sup>.

## Didoli a chyfrif

6.5 Rhaid i bapurau pleidleisio ar gyfer pob etholiad wynebu i fyny drwy gydol y broses gyfrif er mwyn atal unrhyw un rhag gweld y rhif a'r marc adnabod unigryw arall ar gefn y papur pleidleisio<sup>51</sup>. Dylai'r papurau pleidleisio fod yn weladwy drwy'r amser i unrhyw ymgeiswyr, asiantiaid ac arsylwyr sy'n bresennol.

### **Etholiadau'r Cynulliad ac etholiad ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd sydd â dau ymgeisydd yn unig**

6.6 Dylai cynorthwywyr cyfrif ddidoli'r papurau pleidleisio yn bleidleisiau ar gyfer pob ymgeisydd neu blaid wleidyddol gofrestredig (fel sy'n briodol). Dylai unrhyw bapurau pleidleisio amheus gael eu rhoi o'r neilltu er mwyn dyfarnu yn eu cylch.

6.7 Yna dylai nifer y pleidleisiau a roddwyd ar gyfer pob ymgeisydd neu blaid wleidyddol gofrestredig gael eu cyfrif<sup>52</sup> a'u gosod mewn bwndeli o nifer ragnodedig, e.e. bwndeli o 20, 25, 50 neu 100. Dylid atodi slip neu gerdyn ag enw'r ymgeisydd neu enw'r blaid wleidyddol arno, ynghyd â'r nifer yn y bwndel, ar y blaen. Efallai y byddai lliwiau gwahanol ar gyfer y slipiau yn ddefnyddiol. Yna dylai'r bwndeli gael eu hailgyfrif gan gynorthwydd cyfrif arall er mwyn sicrhau cywirdeb y bwndel.

6.8 Cyn mynd ag unrhyw fwndeli oddi wrth y cynorthwywyr cyfrif, dylai goruchwylwyr fwrw golwg dros y bwndeli er mwyn sicrhau bod yr holl bleidleisiau yn y bwndel wedi'u marcio yn yr un ffordd.

6.9 Mae'n annhebygol y bydd nifer y pleidleisiau yn y bwndel olaf yn hafal i nifer ragnodedig y bwndel, ac felly dylid gwneud nodyn o nifer y pleidleisiau yn y bwndeli anghyflawn hynny a'i atodi ar flaen y bwndel.

### **Etholiad ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau â thri neu fwy o ymgeiswyr**

6.10 Os oes tri neu fwy o ymgeiswyr, caiff Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau ei ethol gan ddefnyddio system etholiadol Pleidlais Atodol. O dan y system Pleidlais Atodol, gall pleidleiswyr fwrw pleidlais ffafriaeth gyntaf ac ail ffafriaeth ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau.

6.11 Yn y **broses gyfrif gyntaf**, dim ond y pleidleisiau ffafriaeth gyntaf a gaiff eu cyfrif.

6.12 Ar ddiwedd y broses gyfrif gyntaf, rhaid i chi roi gwybod i Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu beth yw eich cyfansymiau lleol. Wedyn, bydd Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu yn coladu'r cyfansymiau ar gyfer ardal yr heddlu yn ei chyfanrwydd. Os bydd ymgeisydd yn cael mwy na 50% o gyfanswm nifer y pleidleisiau ffafriaeth gyntaf dilys ar draws ardal yr heddlu i gyd, caiff ei ethol. Os na fydd unrhyw ymgeisydd yn cael mwy na 50% o gyfanswm nifer y pleidleisiau ffafriaeth gyntaf dilys ar draws ardal yr heddlu i gyd, bydd y ddau ymgeisydd ar y brig (neu fwy os ydynt yn gyfartal) yn parhau i ymladd yr etholiad ond caiff enwau'r gweddill eu dileu. Bydd Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu yn rhoi gwybod i chi p'un a oes angen ail broses gyfrif.

6.13 Ni fydd modd i chi wybod i sicrwydd pa ymgeiswyr fydd yn parhau i ymladd yr etholiad nes i Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu gyfrifo'r cyfansymiau ar gyfer ardal yr heddlu yn ei chyfanrwydd. Mae'n bosibl y bydd ymgeisydd yn cael llawer o bleidleisiau yn eich ardal bleidleisio, ond wedyn yn cael ei ddileu ar ôl i'r holl gyfansymiau lleol gael eu coladu. Dylid ystyried hyn wrth gymryd unrhyw gamau i baratoi ar gyfer yr ail broses gyfrif.

6.14 Wrth baratoi ar gyfer yr **ail broses gyfrif**, bydd angen i chi ddiolli'r papurau pleidleisio fel a ganlyn:

- papurau pleidleisio sy'n cynnwys pleidlais ffafriaeth gyntaf i un o'r ymgeiswyr sy'n parhau i ymladd yr etholiad – **ni chaiff y rhain eu cyfrif eto** yn yr ail broses gyfrif
- papurau pleidleisio a wrthodwyd yn y broses gyfrif gyntaf

- yr holl bapurau pleidleisio eraill sy'n cynnwys pleidlais ffafriaeth gyntaf ddilys, wedi'u didoli fel a ganlyn:
  - y rhai sy'n cynnwys pleidlais ail ffafriaeth i un o'r ymgeiswyr sy'n parhau, wedi'u trefnu yn ôl ymgeisydd
  - y rhai sy'n cynnwys pleidlais ail ffafriaeth i ymgeisydd nad yw'n parhau i ymladd yr etholiad (nid yw'r rhain yn rhan o'r ail broses gyfrif, ond dylid cyfrif cyfanswm nifer y papurau pleidleisio at ddibenion archwilio a'u cadw mewn pecyn ar wahân)
  - y papurau pleidleisio hynny y mae angen dyfarnu yn eu cylch

6.15 Wedyn, rhaid i chi gyfrif yr holl bapurau pleidleisio sy'n cynnwys pleidleisiau ail ffafriaeth dilys i'r ymgeiswyr sy'n parhau<sup>53</sup>.

6.16 Ar ddiwedd yr ail broses gyfrif, rhaid i chi roi gwybod i Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu beth yw eich cyfansymiau lleol<sup>54</sup>. Wedyn, bydd Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu yn coladu'r cyfansymiau ar gyfer yr ail broses gyfrif ar gyfer ardal yr heddlu yn ei chyfanrwydd, a'u hychwanegu ar gyfanswm nifer y pleidleisiau ffafriaeth gyntaf a gafodd pob un o'r ymgeiswyr hynny. Caiff yr ymgeisydd â'r nifer uchaf o bleidleisiau ei ethol, a bydd Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu yn rhoi gwybod i chi beth yw'r canlyniad<sup>55</sup>.

## Papurau pleidleisio amheus

6.17 Dylech ddyfarnu ynglŷn â phapurau pleidleisio amheus yn rheolaidd wrth i'r cyfrif fynd rhagddo: ni ddylid gadael y broses o ddyfarnu ynglŷn â phapurau pleidleisio amheus tan ddiwedd y cyfrif.

6.18 Dylech ystyried llyfryn y Comisiwn ar bapurau pleidleisio amheus ar gyfer [etholiadau'r Cynulliad](#) ac ar gyfer etholiad [Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu](#) drwy gydol y broses ddyfarnu. Mae'r llyfrynnau'n cynnwys enghreifftiau o bleidleisiau a ganiateir a phleidleisiau a wrthodir a'r egwyddorion allweddol i'w dilyn wrth ddyfarnu ynglŷn â phapurau pleidleisio amheus.

6.19 Hefyd, nodir enghreifftiau o bapurau pleidleisio a ganiateir a phapurau pleidleisio a wrthodir ar y matiau bwrdd papurau pleidleisio amheus y dylech ei arddangos yn y broses gyfrif er mwyn i ymgeiswyr, asiantiaid ac arsylwyr gyfeirio ato. Ceir fersiynau gwahanol o'r matiau bwrdd papurau pleidleisio amheus fel y nodir isod:

- Etholiad [etholaethol y Cynulliad](#)
- Etholiad [rhanbarthol y Cynulliad](#)
- Etholiad ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu â [dau ymgeisydd yn unig](#)
- Etholiad ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu â thri neu fwy o ymgeiswyr - [mat bwrdd safonol](#)
- Etholiad ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu – matiau bwrdd atodol er mwyn helpu cynorthwywyr cyfrif i nodi pleidleisiau ffafriaeth gyntaf ac ail ffafriaeth dilys - [syml a ganiateir](#) a [ffafriaeth gyntaf yn unig](#)

6.20 Wrth ddyfarnu ynglŷn â phapurau pleidleisio amheus, dylech wneud y canlynol:

- byddwch yn glir ac yn gyson bob amser
- cymerwch amser i sicrhau y gwneir penderfyniad ystyriol ym mhob achos
- penderfynwch a yw bwriad y pleidleisiwr yn ymddangos yn glir ar y papur pleidleisio

6.21 Fel rhan o hyn, bydd angen i chi:

- ystyried y papur pleidleisio cyfan
- ystyried a yw'r ffordd y cafodd papur pleidleisio ei farcio yn golygu
  - yn etholiad etholaethol y Cynulliad ac mewn etholiad ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu â dau ymgeisydd, bod pleidlais dros un ymgeisydd yn amlwg
  - yn etholiad rhanbarthol y Cynulliad, bod pleidlais dros un blaid neu ymgeisydd rhanbarthol unigol yn amlwg
  - mewn etholiad ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu â mwy na dau ymgeisydd:
    - yn y broses gyfrif gyntaf, bod pleidlais ffafriaeth gyntaf dros un ymgeisydd yn amlwg
    - yn yr ail broses gyfrif, bod pleidlais ail ffafriaeth dros un ymgeisydd yn amlwg

6.22 Yn **etholiadau'r Cynulliad**, mae'r ddeddfwriaeth yn darparu bod yn rhaid i chi wrthod papur pleidleisio:

- nad yw'n cynnwys y marc swyddogol (nid y marc adnabod unigryw)
- sy'n cynnwys pleidleisiau:
  - yn etholiad etholaethol y Cynulliad, dros fwy nag un ymgeisydd
  - yn etholiad rhanbarthol y Cynulliad, dros fwy nag un blaid gofrestredig neu ymgeisydd rhanbarthol unigol, neu dros blaid gofrestredig ac ymgeisydd rhanbarthol unigol
- os bydd unrhyw beth wedi'i ysgrifennu neu wedi'i farcio arno sy'n eich galluogi i adnabod y pleidleisiwr (ac eithrio rhif y papur pleidleisio argraffedig neu farc adnabod unigryw arall)
- nad yw wedi'i farcio neu sy'n ddi-rym oherwydd ansicrwydd<sup>56</sup>

6.23 Yn yr etholiad ar gyfer **Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu**, mae'r ddeddfwriaeth yn darparu bod yn rhaid i chi wrthod papur pleidleisio yn y **broses gyfrif gyntaf**:

- nad yw'n cynnwys y marc swyddogol (nid y marc adnabod unigryw)
- sy'n cynnwys mwy nag un bleidlais ffafriaeth gyntaf
- os bydd unrhyw beth wedi'i ysgrifennu neu wedi'i farcio arno sy'n eich galluogi i adnabod y pleidleisiwr (ac eithrio rhif y papur pleidleisio argraffedig neu farc adnabod unigryw arall)
- nad yw wedi'i farcio
- sy'n ddi-rym oherwydd ansicrwydd o ran y bleidlais ffafriaeth gyntaf<sup>57</sup>

6.24 Dim ond papurau pleidleisio sydd â phleidlais ffafriaeth gyntaf ddilys a all symud ymlaen i'r broses gyfrif ar gyfer ail ffafriaeth<sup>58</sup>.

6.25 Yn yr **ail broses gyfrif**, rhaid i chi wrthod papur pleidleisio:

- nad yw'n cynnwys y marc swyddogol (nid y marc adnabod unigryw)
- sy'n cynnwys mwy nag un bleidlais ffafriaeth gyntaf
- os bydd unrhyw beth wedi'i ysgrifennu neu wedi'i farcio arno sy'n eich galluogi i adnabod y pleidleisiwr (ac eithrio rhif y papur pleidleisio argraffedig neu farc adnabod unigryw arall)
- nad yw'r bleidlais ail ffafriaeth wedi'i marcio arno
- sy'n ddi-rym oherwydd ansicrwydd o ran y bleidlais ail ffafriaeth<sup>59</sup>

6.26 Fodd bynnag, yn etholiadau'r Cynulliad a'r etholiad ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, mae'r ddeddfwriaeth yn nodi, oni bai bod modd adnabod y pleidleisiwr oherwydd y ffordd y marciwyd y papur pleidleisio, na chaniateir i chi wrthod papur pleidleisio y marciwyd y bleidlais arno yn y ffyrdd canlynol os yw bwriad y pleidleisiwr yn amlwg:

- rywle arall yn hytrach na'r man priodol
- mae'r bleidlais wedi'i marcio mewn ffordd arall ar wahân i groes
- mae'r bleidlais wedi'i marcio drwy fwy nac un marc<sup>60</sup>

6.27 At hynny, efallai y bydd angen ystyried ymhellach unrhyw bapurau pleidleisio sy'n arddangos unrhyw rai o'r canlynol:

- unrhyw bapur pleidleisio sy'n cynnwys unrhyw beth anarferol (er enghraifft, ymddengys ei fod wedi'i newid, naill ai â theclyn ysgrifennu cwbl wahanol neu â hylif cywiro)
- unrhyw bapur pleidleisio sydd wedi'i dorri neu wedi'i ddifrodi mewn unrhyw ffordd

6.28 Dylid trin unrhyw bapurau pleidleisio yr ymddengys eu bod wedi cael eu newid, naill ai â theclyn ysgrifennu cwbl wahanol neu â hylif cywiro, fel rhai 'amheus' a dylid cyflwyno dyfarniad yn eu cylch lle y bydd yn rhaid i chi benderfynu ar eu dilysrwydd ym mhresenoldeb ymgeiswyr, asiantiaid ac arsylwyr. Rhaid i'r rhai y datganwyd eu bod yn ddilys wedyn gael eu cyfrif a'u cynnwys yng nghyfanswm nifer y pleidleisiau a fwriwyd dros yr ymgeisydd neu'r blaid briodol (fel y bo'n gymwys).

6.29 Mae'ch penderfyniad ynglŷn ag unrhyw gwestiwn sy'n codi mewn perthynas â phapur pleidleisio yn derfynol a dim ond drwy ddeiseb etholiadol y gellir ei herio<sup>61</sup>. Rhaid i chi lunio datganiad ar gyfer pob etholiad a ymleddir yn etholiadau'r Cynulliad, yn dangos nifer y papurau pleidleisio a wrthodwyd ac am ba reswm<sup>62</sup>. Yn yr etholiad ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, rhaid paratoi datganiad am bapurau pleidleisio a wrthodwyd ar ôl y broses gyfrif gyntaf ac, os ceir ail broses gyfrif, ar ddiwedd yr ail broses gyfrif<sup>63</sup>.

6.30 Felly dylai fod gennych system ar waith drwy gydol y broses ddyfarnu ar gyfer didoli'r papurau pleidleisio a wrthodwyd o dan y penawdau canlynol:



## Etholiadau'r Cynulliad ac etholiad ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu sydd â dau ymgeisydd yn unig:

- dim marc swyddogol
- ysgrifen neu farc sy'n eich galluogi i adnabod y pleidleisiwr
- heb ei farcio
- sy'n ddi-rym oherwydd ansicrwydd
- sy'n cynnwys pleidleisiau
  - dros fwy nag un ymgeisydd yn etholiad etholaethol y Cynulliad a'r etholiad ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
  - dros fwy nag un blaid gofrestredig neu ymgeisydd rhanbarthol unigol, neu dros blaid gofrestredig ac ymgeisydd rhanbarthol unigol yn etholiad rhanbarthol y Cynulliad

## Etholiad ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu â thri neu fwy o ymgeiswyr

- dim marc swyddogol
- ysgrifen neu farc sy'n eich galluogi i adnabod y pleidleisiwr
- di-rym oherwydd ansicrwydd
- yn y **broses gyfrif gyntaf**:
  - pleidlais ffafriaeth gyntaf dros fwy nag un ymgeisydd
  - dim pleidlais ffafriaeth gyntaf wedi'i marcio
- yn yr **ail broses gyfrif**:
  - pleidlais ail ffafriaeth dros fwy nag un ymgeisydd
  - dim pleidlais ail ffafriaeth wedi'i marcio

6.31 Dylech ystyried canllawiau'r Comisiwn ac unrhyw ganllawiau ychwanegol a gyhoeddwyd gan y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol neu Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu er mwyn sicrhau y caiff y pleidleisiau a wrthodir eu categoraiddio mewn ffordd gywir a chyson er mwyn eu cofnodi ar y datganiadau.

6.32 Rhaid i'r gair 'gwrthodwyd' fod wedi'i farcio ar bob papur pleidleisio a wrthodwyd, a rhaid ychwanegu'r geiriau 'gwrthwynebwyd y penderfyniad i wrthod' os bydd asiant cyfrif yn gwrthwynebu'ch penderfyniad<sup>64</sup>. Er y dylai fod modd i arsylwyr arsylwi ar y broses hon, yn wahanol i asiantiaid, nid oes ganddynt hawl i wrthwynebu penderfyniad i wrthod papur pleidleisio.

6.33 Dylai copi o'r datganiad am bapurau pleidleisio a wrthodwyd gael ei osod yn y pecyn ar gyfer papurau pleidleisio a wrthodwyd.

### Papurau pleidleisio a dorrwyd

6.34 Efallai y byddwch yn dod ar draws achosion lle mae pleidleiswyr wedi torri rhan o'r papur pleidleisio. Wrth benderfynu a oes modd cyfrif darn o bapur pleidleisio bydd yn dibynnu ar b'un a yw'n cynnwys y marc swyddogol.

6.35 Os yw'n ei gynnwys, gellir derbyn y papur pleidleisio fel pleidlais ddilys, ar yr amod eich bod yn fodlon ar y canlynol:

- mae bwriad y pleidleisiwr yn amlwg
- nid oes unrhyw rai o'r rhesymau dros wrthod yn berthnasol



Gweler Pennod 6 o [Ran D: Pleidleisio absennol](#) i gael canllawiau ar sut i ddelio â phapurau pleidleisio wedi'u torri wrth agor pleidleisiau post.

## Cysoni

6.36 Ar ôl i'r holl bapurau pleidleisio gael eu didoli ac ar ôl i ddyfarniadau ynglŷn ag unrhyw bleidleisiau amheus gael eu gwneud, gall y dasg allweddol o gysoni ddechrau.

6.37 Ym mhob achos, dylech fod yn fodlon bod unrhyw ganlyniad neu gyfansymiau (fel y bo'n briodol) yn adlewyrchu'r pleidleisiau a gafwyd, ac felly os na fydd y ffigurau'n gyson â'i gilydd, dylid dilyn y weithdrefn ganlynol er mwyn ceisio nodi ac unioni'r anghysondeb:

- Edrychwch yn y man storio a sicrhewch fod yr holl flychau pleidleisio wedi cael eu hagog a'u bod yn wag.
- Edrychwch ar y lloriau a'r arwynebau rhag ofn bod papurau pleidleisio wedi cael eu gollwng yn lleoliad y cyfrif.
- Edrychwch eto ar y ffigurau dilysu a'r ymarfer cysoni rhag ofn eu bod yn cynnwys camgymeriadau cyfrifo.
- Sicrhewch eich bod wedi cyfrif am bob papur pleidleisio a wrthodwyd.
- Sicrhewch fod yr holl fwndeli a bwndeli rhannol wedi cael eu cyfrif.
- Ystyriwch ailgyfrif y papurau pleidleisio yn y bwndeli.

6.38 Dylech hefyd wneud unrhyw wiriadau eraill sy'n angenrheidiol, yn eich tyb chi.

### **Cysoni yn etholiadau'r Cynulliad ac mewn etholiad ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu â dau ymgeisydd yn unig**

6.39 Rhaid i'r holl fwndeli a bwndeli rhannol o bapurau pleidleisio sy'n dangos pleidlais ddilys i bob ymgeisydd neu blaid (yn dibynnu ar ba etholiad a ymleddir) gael eu cyfrif<sup>65</sup>. Wedyn, dylai'r cyfanswm ar gyfer pob ymgeisydd neu blaid (fel y bo'n briodol) gael ei ychwanegu at gyfanswm nifer y papurau pleidleisio a wrthodwyd, a dylai'r ffigur hwn gyfateb yn union i'r ffigur sy'n rhoi cyfanswm nifer y papurau pleidleisio a gafwyd ar ddiwedd y broses ddilysu.

6.40 Yn etholiadau'r Cynulliad, os bydd y ddau ffigur yn gyson, dylech fwrw ymlaen â'r broses o ymgynghori â'r ymgeiswyr a'r asiantiaid sy'n bresennol ynglŷn â'r canlyniad dros dro. Yn yr etholiad ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, pan fyddwch yn fodlon, dylech fwrw ymlaen â'r broses o ymgynghori â Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu ynglŷn â'r cyfanswm lleol dros dro, yn ogystal â hysbysu'r ymgeiswyr a'r asiantiaid sy'n bresennol. Bydd Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu yn rhoi gwybod i chi am y prosesau sydd ar waith ar gyfer ystyried y cyfanswm lleol dros dro a delio â cheisiadau am ailgyfrif.

6.41 Os na fydd y ffigurau'n gyson, dylech ddilyn y weithdrefn ym mharagraffau 6.37 a 6.38 uchod.

## Cysoni mewn etholiad ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau â thri neu fwy o ymgeiswyr

6.42 Yn y **broses gyfrif gyntaf**, rhaid i'r holl fwndeli a bwndeli rhannol o bapurau pleidleisio sy'n dangos pleidlais ffafriaeth gyntaf ddilys i bob ymgeisydd gael eu cyfrif<sup>66</sup>. Wedyn, dylid ychwanegu'r cyfanswm ar gyfer pob ymgeisydd at gyfanswm nifer y papurau pleidleisio a wrthodwyd, a dylai'r cyfanswm hwn gyfateb yn union i'r ffigur sy'n rhoi cyfanswm nifer y papurau pleidleisio a gafwyd ar ddiwedd y broses ddilysu. Os bydd y ddau ffigur yn gyson, dylech fwrw ymlaen â'r broses o ymgynghori â Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu ynglŷn â'r cyfanswm lleol dros dro, yn ogystal â hysbysu'r ymgeiswyr a'r asiantiaid sy'n bresennol. Bydd Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu yn rhoi gwybod i chi am y prosesau sydd ar waith ar gyfer ystyried y cyfanswm lleol dros dro a delio â cheisiadau am ailgyfrif.

6.43 Yn yr **ail broses gyfrif**, lle bo angen, rhaid i'r holl fwndeli a bwndeli rhannol o bapurau pleidleisio sy'n dangos pleidlais ail ffafriaeth ddilys i bob ymgeisydd sy'n weddill gael eu cyfrif<sup>67</sup>. Dylai'r papurau pleidleisio sy'n cynnwys pleidlais ffafriaeth gyntaf i'r ymgeiswyr hynny nad ydynt yn parhau i ymladd yr etholiad gyfateb i'r canlynol: cyfanswm y papurau pleidleisio sy'n cynnwys pleidlais ail ffafriaeth ddilys, yn ogystal â chyfanswm y papurau pleidleisio sy'n cynnwys pleidlais ail ffafriaeth i ymgeisydd nad yw'n ymladd yr etholiad mwyach, a chyfanswm y papurau pleidleisio a wrthodwyd yn yr ail broses gyfrif.

6.44 Os bydd y ffigurau'n gyson, dylech fwrw ymlaen â'r broses o ymgynghori â Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu ynglŷn â'r cyfanswm lleol dros dro yn ogystal â hysbysu'r ymgeiswyr a'r asiantiaid sy'n bresennol. Bydd Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu yn rhoi gwybod i chi am y prosesau sydd ar waith ar gyfer ystyried y cyfanswm lleol dros dro a delio â cheisiadau am ailgyfrif.

6.45 Os bydd y ffigurau'n anghyson ar unrhyw adeg, dylech ddilyn y weithdrefn ym mharagraffau **6.37** a **6.38** uchod.

## Canlyniad/cyfansymiau lleol dros dro ac ailgyfrif

6.46 Dylech fod yn fodlon bod nifer y pleidleisiau dros bob ymgeisydd neu blaid (fel y bo'n briodol) yn gywir cyn bwrw ymlaen â chanlyniad neu gyfanswm lleol (fel y bo'n briodol) dros dro.

6.47 Dylai'r holl brosesau gael eu cynnal o fewn fframwaith mor agored a thryloyw â phosibl sy'n cael ei weithredu drwy amrywiol gamau'r broses gyfrif fel y gall pob ymgeisydd ac asiant ymddiried yn y prosesau a'r canlyniad/cyfansymiau lleol dros dro a roddwyd.

6.48 Yn etholiadau'r Cynulliad, pan fyddwch yn fodlon, dylech hysbysu'r ymgeiswyr a'r asiantiaid ynghylch y canlyniad dros dro a gofyn am eu cydsyniad ynghylch cyhoeddi'r canlyniad. Dylech nodi'n glir bod gan yr ymgeiswyr a'r asiantiaid (neu, yn achos etholiad rhanbarthol, asiant etholiadol

plaid wleidyddol gofrestredig sydd wedi'i henwebu neu ymgeisydd unigol neu ei asiant etholiadol) hawl i ofyn am ailgyfrif<sup>68</sup>. Hefyd, yn yr etholiad rhanbarthol, dylech nodi'n glir nad oes modd gofyn am ailgyfrif ar y lefel ranbarthol, dim ond ar y lefel etholaethol.

6.49 Yn yr etholiad ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, dylech fwrw ymlaen â'r broses o ymgynghori â Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu ynghylch y cyfanswm lleol dros dro, yn ogystal â hysbysu'r ymgeiswyr a'r asiantiaid sy'n bresennol ar ddiwedd pob proses gyfrif a gofyn am gydsyniad cyn symud ymlaen at y broses gyfrif nesaf neu ddatgan y cyfansymiau lleol, fel y bo'n briodol. Bydd Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu yn rhoi gwybod i chi am y prosesau sydd ar waith ar gyfer ystyried y cyfanswm lleol dros dro a delio â cheisiadau am ailgyfrif, neu gall Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu eich cyfarwyddo i ailgyfrif y pleidleisiau ar ôl cael gwybod y cyfansymiau lleol dros dro os oes ganddo reswm dros amau nad yw'r pleidleisiau yn eich ardal wedi cael eu cyfrif yn gywir<sup>69</sup>. Os rhoddwyd cyfarwyddyd i ailgyfrif, pan fydd y broses ailgyfrif honno wedi'i chwblhau, dylai proses y cyfanswm lleol dros dro ddechrau eto. Dylech nodi'n glir i'r ymgeiswyr a'r asiantiaid mai dim ond yn y broses gyfrif gyntaf y gellir ailgyfrif pleidleisiau ffafriaeth gyntaf; dim ond y pleidleisiau ail ffafriaeth y gellir eu hailgyfrif yn yr ail broses gyfrif.

6.50 Yn etholiadau'r Cynulliad a'r etholiad ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, rhaid i chi roi digon o amser i'r ymgeiswyr a'r asiantiaid priodol amgyffred y canlyniad/cyfansymiau lleol dros dro cyn bwrw ymlaen â cham nesaf y broses<sup>70</sup>. Dyma'r adeg y gall ymgeiswyr ac asiantiaid wneud cais am i'r pleidleisiau gael eu hailgyfrif neu, ar ôl ailgyfrif, eu hailgyfrif eto<sup>71</sup>.

6.51 Rhaid i chi ystyried unrhyw gais am ailgyfrif ond cewch wrthod y cais os yw'n afresymol, yn eich barn chi. Fodd bynnag, cewch ystyried cynnig cyfle i'r ymgeiswyr a'r asiantiaid archwilio'r bwndeli o bapurau pleidleisio fel ffordd o gael sicrwydd bod y canlyniad/cyfanswm lleol yn gywir.

6.52 Os byddwch yn cytuno i ailgyfrif y pleidleisiau, dylai'r ymgeiswyr a'r asiantiaid sy'n bresennol gael eu hysbysu cyn i'r ailgyfrif ddechrau a'u briffio ar y prosesau y bwriadwch eu dilyn. Fel yn achos y broses gyfrif wreiddiol, dylid cynnal unrhyw broses ailgyfrif yng ngolwg y rhai sy'n bresennol. Mae gennych hawl i ailystyried pa bapurau pleidleisio y dylid eu gwrthod yn ystod y broses ailgyfrif (neu unrhyw broses ailgyfrif arall)<sup>72</sup>. Yn etholiad y Cynulliad, dylech hysbysu'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol bod proses ailgyfrif ranbarthol yn cael ei chynnal er mwyn sicrhau y gall esbonio'r hyn sy'n digwydd i'r rhai sy'n bresennol wrth i'r seddau rhanbarthol gael eu dyrannu.

6.53 Dylid ymgynghori â'r ymgeiswyr a'r asiantiaid ynglŷn â'r canlyniad/cyfansymiau lleol dros dro diwygiedig yn yr un modd ag yr ymgynghorwyd â hwy ynglŷn â'r canlyniad/cyfansymiau lleol dros dro ar ôl i'r broses gyfrif wreiddiol ddod i ben.

6.54 Mae modd cynnal mwy nag un broses ailgyfrif. Unwaith eto, rhaid i chi ystyried unrhyw gais am ailgyfrif a chewch wrthod y cais os yw'n afresymol, yn eich barn chi.

## Pleidleisiau cyfartal

6.55 Yn etholiad etholaethol y Cynulliad, pan fydd gan ddau neu fwy o'r ymgeiswyr sydd â'r nifer fwyaf o bleidleisiau yr un faint o bleidleisiau ac mae'r pleidleisiau cyfartal hyn rhwng ymgeiswyr sydd yn y safle cyntaf, rhaid i chi benderfynu rhwng yr ymgeiswyr drwy dynnu ar hap<sup>73</sup>.

6.56 Ystyrir bod pa ymgeisydd bynnag a ddewisir ar hap wedi cael pleidlais ychwanegol sy'n ei gwneud yn bosibl datgan ei fod wedi'i ethol<sup>74</sup>.

6.57 Nid yw'n ofynnol tynnu ar hap lle caiff un ymgeisydd ei ethol â mwyafrif y pleidleisiau ac mae'r pleidleisiau cyfartal rhwng ymgeiswyr eraill nad ydynt yn y safle cyntaf ac felly na ellir eu hethol.

6.58 Chi fydd yn penderfynu ar y dull o dynnu ar hap. Mae'r enghreifftiau o brosesau tynnu ar hap yn cynnwys y canlynol:

- caiff papurau pleidleisio, y bydd pob un ohonynt wedi'i farcio â phleidlais ar gyfer un o'r ymgeiswyr sydd â'r un nifer o bleidleisiau, eu gosod mewn cynhwysydd, megis blwch pleidleisio gwag a'u cymysgu, yna caiff un ei dynnu gennych chi
- caiff slipiau o bapur ag enwau'r ymgeiswyr arnynt eu gosod mewn amlenni wedi'u selio a'u cymysgu, yna caiff un ei dynnu gennych chi

6.59 Dylech wneud cyhoeddiad eich bod yn bwriadu mynd ati i dynnu ar hap rhwng yr ymgeiswyr sydd â nifer gyfartal o bleidleisiau, gan egluro'n union beth sydd ar fin digwydd a'r dull a ddefnyddir. Dylai ymgeiswyr, asiantau, cynrychiolwyr y Comisiwn ac arsylwyr achrededig fod yn bresennol yn ystod unrhyw waith paratoi ac yn ystod y broses o dynnu ar hap.

6.60 Os byddwch yn defnyddio'r dull cyntaf a ddisgrifir uchod, dylech fynd ati, yng ngolwg unrhyw ymgeiswyr ac asiantiaid, ac ym mhresenoldeb cynrychiolwyr y Comisiwn ac arsylwyr achrededig, i blygu papur pleidleisio a gyfrifwyd yn flaenorol ar gyfer pob un o'r ymgeiswyr sydd â'r un nifer o bleidleisiau, a'i roi mewn blwch pleidleisio gwag. Dylai cynorthwydd godi'r blwch i uchder lle na allwch weld y papurau y tu mewn i'r blwch, ond lle gallwch roi eich llaw i mewn a thynnu un allan o hyd. Ar ôl cymysgu, dylech dynnu un o'r papurau pleidleisio o'r blwch, ei agor a darllen enw'r ymgeisydd sydd â'r bleidlais wedi'i marcio yn erbyn ei enw yn uchel. Dyfernir wedyn bod yr ymgeisydd hwnnw wedi cael pleidlais ychwanegol.

6.61 Dylid gwneud paratodau tebyg os byddwch yn penderfynu defnyddio unrhyw ddull arall o dynnu ar hap.

6.62 Dylid ychwanegu datganiad at yr hysbysiad o ganlyniad yr etholaeth, yn Gymraeg ac yn Saesneg, yn nodi: 'Yn dilyn pleidleisiau cyfartal, tynnwyd enwau ar hap ac, o ganlyniad, rhoddwyd pleidlais ychwanegol i [*rhoch enw'r ymgeisydd*]'.

6.63 Yn etholiad rhanbarthol y Cynulliad, os bydd dwy neu fwy o bleidiau a/neu ymgeiswyr rhanbarthol unigol wedi cael yr un nifer o bleidleisiau yn yr etholaeth, nid yw'n ofynnol i'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol dynnu ar

hap. Dylech esbonio i'r ymgeiswyr a'r asiantiaid y bydd y cyfansymiau ar gyfer yr etholaeth yn cael eu trosglwyddo i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol er mwyn eu cynnwys yn y broses gyfrifo ar gyfer dyrannu seddau rhanbarthol.

6.64 Mewn etholiad ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, os bydd dau neu fwy o ymgeiswyr wedi cael yr un nifer o bleidleisiau yn yr ardal bleidleisio, naill ai ar ddiwedd y broses gyfrif gyntaf neu'r ail broses gyfrif, nid yw'n ofynnol i'r Swyddog Canlyniadau Lleol dynnu ar hap. Dylech esbonio i'r ymgeiswyr a'r asiantiaid y bydd y cyfansymiau ar gyfer yr ardal bleidleisio yn cael eu trosglwyddo i Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu er mwyn eu cynnwys yn y broses o gyfrifo'r canlyniad ar gyfer ardal yr heddlu.

## Datgan y canlyniadau a'r cyfansymiau lleol

### Etholiad etholaethol y Cynulliad

6.65 Fel Swyddog Canlyniadau Etholaethol, rhaid i chi baratoi datganiad, yn Gymraeg ac yn Saesneg, yn nodi cyfanswm nifer y pleidleisiau a roddwyd i bob ymgeisydd, disgrifiad (os oes disgrifiad) o bob ymgeisydd a nifer y papurau pleidleisio a wrthodwyd a gafwyd o dan bob pennawd. Ar ôl i'r datganiad gael ei baratoi, rhaid i chi ddatgan canlyniad etholiad yr etholaeth ac yna hysbysu'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol ynghylch y canlyniad<sup>75</sup>.

### Etholiad rhanbarthol y Cynulliad

6.66 Fel Swyddog Canlyniadau Etholaethol, rhaid i chi baratoi datganiad, yn Gymraeg ac yn Saesneg, yn nodi cyfanswm nifer y pleidleisiau a roddwyd i bob plaid ac ymgeisydd unigol, disgrifiad (os oes disgrifiad) o bob plaid neu ymgeisydd unigol a nifer y papurau pleidleisio a wrthodwyd a gafwyd o dan bob pennawd. Ar ôl i'r datganiad gael ei baratoi, ac ar ôl cyflwyno canlyniadau'r etholiad rhanbarthol yn eich etholaeth i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol, wedyn rhaid i chi gyhoeddi canlyniad lleol yr etholiad rhanbarthol yn eich etholaeth.



Mae rhagor o ganllawiau i Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol ar goladu canlyniadau a datgan y canlyniad rhanbarthol i'w gweld ym mharagraffau 7.1 - 7.41.

### Etholiad ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd

6.67 Fel Swyddog Canlyniadau Lleol, rhaid i chi baratoi datganiad ar ddiwedd pob proses gyfrif unigol<sup>76</sup>. Yn y **broses gyfrif unigol**, rhaid i'r datganiad hwn gynnwys cyfanswm nifer y pleidleisiau ffafriaeth gyntaf, nifer y pleidleisiau ffafriaeth gyntaf a roddwyd i bob ymgeisydd, cyfanswm nifer y papurau pleidleisio a ddefnyddiwyd a nifer y papurau pleidleisio a wrthodwyd o dan bob pennawd<sup>77</sup>. Yn yr **ail broses gyfrif**, rhaid i'r datganiad hwn gynnwys nifer y pleidleisiau ail ffafriaeth a roddwyd i bob ymgeisydd sy'n weddill a chyfanswm nifer y pleidleisiau a wrthodwyd o dan bob pennawd<sup>78</sup>. Rhaid i chi roi pob datganiad i Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu a datgan y cyfansymiau lleol ar ddiwedd pob proses gyfrif ar ôl i Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu eich awdurdodi i wneud hynny<sup>79</sup>.

6.68 Dylid ystyried y ffactorau canlynol wrth wneud datganiadau:

- Penderfynwch ar yr union fan yn y lleoliad lle y bydd cyhoeddiadau a datganiadau cyhoeddus yn cael eu gwneud a phwy fydd ar y llwyfan ar yr adegau hyn. Dylai'r rhai y mae angen iddynt gyrraedd y llwyfan allu gwneud hynny'n hawdd. Gallech ddefnyddio byrddau arddangos i gynnig cefndir addas i gyhoeddi'r canlyniadau/cyfansymiau lleol.
- Dylai unrhyw offer cyhoeddi fod yn ei le a dylid ei wirio cyn i'r prosesau ddechrau.
- Sicrhewch unwaith eto fod y canlyniad/cyfanswm lleol yn gywir, a'i fod wedi'i ysgrifennu ar ffurf geiriau ar gyfer rhoi'r canlyniad ar lafar er mwyn osgoi unrhyw wallau. Efallai y bydd angen i chi ailadrodd y datganiad fel y gall y rhai sy'n bresennol glywed y manylion yn glir, yn enwedig os bydd y rhai sy'n bresennol yn cadw sŵn.
- Dylech gymryd camau i roi copi ysgrifenedig o'r canlyniadau i gynrychiolwyr y cyfryngau sy'n bresennol ar yr adeg y gwneir y cyhoeddiad oherwydd bydd hyn yn eu helpu i sicrhau eu bod yn trosglwyddo'r ffigurau yn gywir.

6.69 Pan fydd ymgeisydd wedi defnyddio ei enw a ddefnyddir yn gyffredin, dylech ddefnyddio ei enw llawn a'i enw a ddefnyddir yn gyffredin wrth ddatgan y canlyniad/cyfansymiau lleol.

6.70 Unwaith y bydd y canlyniad wedi'i ddatgan, bydd yn derfynol ac ni ellir ei newid. Nid yw'r pŵer i gywiro gwallau gweithdrefnol yn eich galluogi i gywiro canlyniad anghywir unwaith y bydd wedi'i ddatgan.



Mae rhagor o ganllawiau ar hysbysu'r cyhoedd ar ôl yr etholiadau, gan gynnwys cyflwyno tystysgrifau i Glerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru, i'w gweld yn [Rhan F – Ar ôl datgan canlyniadau](#).

# 7 Cyfrifo'r canlyniad rhanbarthol a dyrannu seddi

7.1 Fel Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol, dylech sicrhau eich bod yn rhoi proses coladu canlyniadau ar waith er mwyn eich galluogi i goladu'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch gan Swyddogion Canlyniadau Etholaethol ledled y rhanbarth fel bod modd i chi gyfrifo'r canlyniad rhanbarthol a dyrannu'r seddi. Yn y bennod hon, byddwn yn defnyddio 'chi' i gyfeirio at y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol.

7.2 Chi sy'n penderfynu ar y ffordd orau o reoli'r broses hon yn eich rhanbarth. Dylai eich cynllun prosiect gynnwys cynlluniau i gyfrifo'r canlyniad a dyrannu'r seddi. Pa brosesau a systemau bynnag a ddefnyddiwch, dylech sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r egwyddorion a nodir yn **mhennod 1**.

7.3 Dylech benderfynu ar y broses a'r system y byddwch yn eu defnyddio i goladu canlyniadau etholaethol a rhanbarthol gan Swyddogion Canlyniadau Etholaethol er mwyn cyfrifo'r canlyniad rhanbarthol a dyrannu'r seddi. Dylech hefyd ystyried beth fydd angen i chi ei roi ar waith o bosibl i ategu'r prosesau hyn, gan gynnwys protocolau a systemau, a sicrhau y cânt eu dilyn yn gyson a dylech gynnwys trefniadau wrth gefn yn eich cynlluniau rhag ofn na fydd unrhyw gyfleuster, adeilad na thechnoleg rydych yn bwriadu ei ddefnyddio neu ei defnyddio ar gael mwyach.

7.4 Dylech ddatblygu protocolau a'u rhoi ar waith yn ôl yr angen ar gyfer cyfleu gwybodaeth rhwng Swyddogion Canlyniadau Etholaethol a chi fel Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol, gan gynnwys cyfleu'r canlyniadau etholaethol a rhanbarthol.

7.5 Dylech gysylltu â Swyddogion Canlyniadau Etholaethol wrth gynllunio a datblygu'r broses ar gyfer coladu canlyniadau etholaethol a rhanbarthol, a rhoi arweiniad iddynt ar sut y bydd hyn yn gweithio'n ymarferol. Dylech baratoi templedi o'r holl ddogfennau y bydd angen i'r Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol eu cwblhau yn ystod y broses o goladu canlyniadau, a'u rhannu â hwy ymlaen llaw (boed yn electronig neu ar ffurf copi caled) er mwyn sicrhau y caiff yr holl wybodaeth ei chofnodi a'i throsglwyddo mewn ffordd gyson ac er mwyn darparu trywydd archwilio clir. Dylai unrhyw system a ddefnyddir gael trefniadau wrth gefn rhag ofn y bydd unrhyw broblemau neu fethiannau yn y system.

7.6 Dylech hefyd wneud trefniadau i brofi'r broses ac unrhyw systemau ategol rydych yn bwriadu eu defnyddio, a ddylai gynnwys o leiaf un ymarfer o'r broses yn cynnwys eich staff a Swyddogion Canlyniadau Etholaethol a'u staff hwy er mwyn sicrhau bod pawb dan sylw yn deall sut mae'r broses yn gweithio ac yn gyfarwydd â hi a beth yw eu cyfrifoldebau, ac er mwyn sicrhau y gellir nodi a datrys unrhyw broblemau cyn y digwyddiad ei hun.



## Amseru'r broses o goladu canlyniadau

7.7 Ni allwch ddechrau coladu seddi rhanbarthol nes eich bod wedi cael y canlyniadau etholaethol a'r canlyniadau rhanbarthol gan bob Swyddog Canlyniadau Etholaethol yn eich rhanbarth<sup>80</sup>. Dylech gysylltu â'r Swyddogion Canlyniadau Etholaethol yn eich rhanbarth er mwyn rhagweld eu hamseroedd gorffen disgwylidig. Bydd y wybodaeth hon yn bwydo i mewn i'ch rhagdybiaethau cynllunio ynglŷn ag amseriad y broses o ddyrannu seddi rhanbarthol a datgan y canlyniad rhanbarthol, ac felly bydd yn eich helpu i reoli disgwyliadau pleidiau, ymgeiswyr, asiantiaid a'r cyfryngau.

7.8 Dylech sicrhau bod yr adnoddau priodol gennych ar waith er mwyn sicrhau y gellir coladu'r canlyniadau yn effeithiol, gan gwblhau'r broses o ddyrannu'r seddi rhanbarthol mewn modd amserol ar ôl i chi gael y canlyniadau etholaethol a rhanbarthol gan bob Swyddog Canlyniadau Etholaethol yn eich rhanbarth.

## Pwy all fod yn bresennol?

7.9 Dylech sicrhau bod yr holl brosesau yn dryloyw ac yn digwydd yng ngolwg y rhai sydd â'r hawl i fod yno, gyda gwybodaeth yn cael ei rhoi i'r rhai sy'n bresennol am y prosesau i'w dilyn.

7.10 Mae gan y bobl ganlynol hawl yn ôl y gyfraith i fod yn bresennol wrth gyfrifo canlyniadau a dyrannu seddi yn etholiad rhanbarthol y Cynulliad:

- chi a'ch staff
- y Swyddogion Canlyniadau Etholaethol ar gyfer unrhyw etholaeth yn y rhanbarth
- ymgeiswyr rhanbarthol unigol ac ymgeiswyr rhestr plaid (ac un unigolyn a ddewisir gan bob un ohonynt)
- asiantiaid etholiadol (neu rywun sy'n gweithredu ar ran yr asiant etholiadol)
- asiantiaid cyfrif
- Cynrychiolwyr y Comisiwn
- arsylwyr achrededig
- unrhyw unigolyn arall a gaiff ganiatâd gennych chi, fel Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol, i fod yn bresennol (gweler paragraff **7.15** isod)

7.11 Rhaid i chi roi gwybod yn ysgrifenedig i'r asiantiaid etholiadol, a phob Swyddog Canlyniadau Etholaethol yn eich rhanbarth, ble a phryd y byddwch yn coladu'r canlyniadau, yn ogystal â rhoi unrhyw wybodaeth arall iddynt sy'n briodol yn eich tyb chi<sup>81</sup>.

7.12 Nid oes gofyniad i'r rhai sy'n bresennol gyrraedd erbyn amser penodol, felly dylid gadael i'r rhai sydd â hawl i fod yn bresennol ddod i mewn pryd bynnag y byddant yn cyrraedd. Hefyd, dylai fod gweithdrefn ar waith er mwyn sicrhau nad oes neb sydd am adael a dychwelyd yn nes ymlaen yn cael ei rwystro rhag gwneud hynny.

7.13 Dylech roi rhestrau o'r bobl hynny sydd â'r hawl i fod yn bresennol i'r rhai sydd ar ddyletswydd wrth fynedfa lleoliad y coladu canlyniadau, a chyfarwyddo'r staff diogelwch i wirio tocynnau neu gardiau mynediad unrhyw un sy'n ceisio dod i mewn.

7.14 Fodd bynnag, dylid briffio'r staff diogelwch hefyd nad oes angen i gynrychiolwyr y Comisiwn nac arsylwyr achrededig roi gwybod ymlaen llaw lle y bwriadant arsylwi ac felly na fyddant yn ymddangos ar eu rhestr o bosibl ond eto i gyd fod ganddynt hawl i fod yn bresennol ar ôl dangos eu bathodyn adnabod fel arsylwr neu gynrychiolydd y Comisiwn.

7.15 Gallwch ganiatáu i bobl eraill fod yn bresennol yn y digwyddiad, yn ôl eich disgrisiwn, os byddwch yn fodlon na fydd hynny'n amharu ar unrhyw ran o'r broses a'ch bod wedi ymgynghori â'r asiantiaid etholiadol ymlaen llaw neu wedi ystyried bod hynny'n anymarferol.

7.16 Am resymau iechyd a diogelwch, dylech gofnodi enwau pawb sy'n bresennol yn y broses o goladu canlyniadau.

## Cyfathrebu yn ystod y broses o goladu canlyniadau

7.17 Bydd cyfathrebu da, mewn sesiynau briffio ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid a'r cyfryngau cyn y digwyddiad ac yn ystod y digwyddiad ei hun, yn galluogi'r rhai sy'n bresennol i graffu'n briodol ar yr holl weithrediadau, a bydd hyn yn helpu i fagu hyder bod y canlyniad yn gywir. Gall rhoi gwybodaeth am y prosesau i'w dilyn hefyd helpu i leihau nifer yr ymholiadau a geir gan ymgeiswyr ac asiantiaid, y cyfryngau a phobl eraill sy'n bresennol.

7.18 Dylech sicrhau eich bod wedi paratoi gwybodaeth briodol er mwyn egluro'r prosesau rydych am eu dilyn i unrhyw ymgeiswyr, asiantiaid, arsylwyr ac aelodau o'r cyfryngau sy'n bresennol. Dylech o leiaf egluro eich rôl fel Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol a nodi, lle y bo'n briodol, pwy yw eich dirprwyon a'ch staff allweddol ac egluro eu rolau. Dylech hefyd egluro sut y bydd y broses yn gweithio, gan gynnwys sut mae hyn yn berthnasol i'r prosesau o ddilysu a chyfrif pleidleisiau ledled y rhanbarth, a nodi'r camau allweddol yn y broses.

7.19 Dylech hysbysu'r rhai sy'n bresennol am yr hyn sy'n digwydd drwy gydol y broses. Dylech ystyried ar ba gamau yn y broses y byddwch yn rhoi gwybodaeth i'r rhai sy'n bresennol, a rhoi prosesau ar waith i sicrhau bod modd i chi wneud hyn yn ymarferol.

7.20 Dylai fod gennych gynllun ar waith ar gyfer y cyfryngau o ran y broses o gyfrifo'r canlyniad rhanbarthol a dyrannu'r seddi. Yn ogystal â gwneud trefniadau ymarferol er mwyn iddynt fod yn bresennol, dylai eich cysylltiad cynnar â'r cyfryngau gynnwys esboniad o'r prosesau i'w dilyn a phryd y rhagwelir y caiff y canlyniad ei ddatgan. Dylech gynnwys lle a chyfle i'r cyfryngau gyflwyno adroddiadau ar y canlyniad. Chi sydd â'r disgrisiwn i benderfynu pa gynrychiolwyr o'r cyfryngau a gaiff ganiatâd i fod yn bresennol.

## Cyfrifo'r canlyniad rhanbarthol

7.21 Rhaid i chi wneud trefniadau ar gyfer cyfrifo'r canlyniad a dyrannu'r seddi rhanbarthol cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl i chi gael datganiad am y canlyniadau rhanbarthol, a chael gwybod pwy yw'r ymgeisydd etholaethol sydd wedi'i ethol, gan bob Swyddog Canlyniadau Etholaethol<sup>82</sup>.

7.22 Rhaid i chi gyfrifo cyfanswm nifer y pleidleisiau a roddwyd i bob plaid wleidyddol ac ymgeisydd rhanbarthol unigol drwy gyfuno'r pleidleisiau a roddwyd i bob plaid gofrestredig neu ymgeisydd rhanbarthol unigol ym mhob etholaeth yn y rhanbarth. Rhaid i chi hefyd gyfrifo nifer y seddi etholaethol a enillwyd yn y rhanbarth gan bob plaid<sup>83</sup>.

7.23 Rhaid i chi ddyrannu'r seddi yn y rhanbarth yn seiliedig ar gyfrifiad sy'n defnyddio fformiwla addasedig d'Hondt<sup>84</sup>.

7.24 Yn fformwla addasedig d'Hondt, caiff nifer y pleidleisiau a fwriwyd yn yr etholiad rhanbarthol ar gyfer pob plaid neu ymgeisydd rhanbarthol unigol ei rhannu â nifer y seddau etholaethol a enillwyd ganddynt, **ac un ychwanegol**.

7.25 Dyrennir y sedd rhanbarthol gyntaf i'r plaid neu'r ymgeisydd sydd â'r ffigur mwyaf ar ôl i chi wneud y cyfrifiad hwn. Er mwyn dyrannu'r ail i'r bedwaredd sedd rhanbarthol, ailadroddir y cyfrifiad, ond bob tro rhaid sicrhau mai'r nifer y rhennir y ffigur pleidleisio rhanbarthol â hi fydd cyfanswm nifer y seddau a enillwyd eisoes (rhanbarthol ac etholaethol), **ac un ychwanegol**.

7.26 Caiff y seddi y mae gan bob plaid wleidyddol hawl iddynt eu llenwi gan yr ymgeiswyr yn y drefn y mae eu henwau yn ymddangos ar y rhestr plaid.

7.27 Bydd ymgeiswyr rhanbarthol unigol yn ennill sedd os mai eu cyfanswm yw'r uchaf ar unrhyw gam yn y cyfrifiad. Os byddant yn ennill, caiff eu henwau eu tynnu o weddill y cyfrifiad gan na allant ennill ail sedd.

7.28 Pan fydd sedd wedi'i dyrannu i ymgeisydd unigol, neu pan fydd yr un faint o seddau ag sydd o ymgeiswyr wedi'u dyrannu i blaid, caiff eu henwau eu tynnu o'r cyfrifiad ar gyfer dyrannu'r seddi sy'n weddill.

7.29 Mae'r tabl canlynol yn rhoi enghraifft wedi'i chyfrifo:

---

	Plaid 1	Plaid 2	Plaid 3	Plaid 4	Canlyniad
Seddi etholaethol a enillwyd ledled y rhanbarth	4	0	2	2	
Cyfanswm y pleidleisiau a fwriwyd yn yr etholiad rhanbarthol	116,151	63,769	61,777	56,479	

---

Sedd Ranbarthol 1 <sup>af</sup>	÷ 5 = 23,230	÷ 1 = <b>63,769</b>	÷ 3 = 20,592	÷ 3 = 18,826	Dyrennir sedd i Blaid 2
2 <sup>il</sup> sedd Ranbarthol	÷ 5 = 23,230	÷ 2 = <b>31,884</b>	÷ 3 = 20,592	÷ 3 = 18,826	Dyrennir sedd i Blaid 2
3 <sup>ydd</sup> sedd Ranbarthol	÷ 5 = <b>23,230</b>	÷ 3 = 21,256	÷ 3 = 20,592	÷ 3 = 18,826	Dyrennir sedd i Blaid 1
4 <sup>ydd</sup> sedd Ranbarthol	÷ 6 = 19,358	÷ 3 = <b>21,256</b>	÷ 3 = 20,592	÷ 3 = 18,826	Dyrennir sedd i Blaid 2
Cyfanswm yr Aelodau Rhanbarthol	1	3	0	0	
Cyfanswm y gynrychiolaeth	5	3	2	2	

7.30 Os bydd dwy blaid neu fwy a/neu dau ymgeisydd rhanbarthol unigol neu fwy yn gyfartal gyda'r cyfansymiau uchaf ar unrhyw gam lle dyrennir sedd, rhaid dilyn y rheolau a nodir ym mharagraff **7.34** isod.

7.31 Caiff y seddi a enillir gan bob plaid wleidyddol eu dyrannu i ymgeiswyr yn y drefn y mae eu henwau'n ymddangos ar y rhestr a gyflwynwyd gan y blaid honno ar adeg enwebu.

7.32 Os caiff sedd ei dyrannu i bob ymgeisydd ar restr plaid, caiff enw'r blaid honno ei dynnu o unrhyw gyfrifiadau pellach ar gyfer y seddi sy'n weddill.

7.33 Rhaid i chi ddangos canlyniad dros dro y broses ddyrannu i bob ymgeisydd rhanbarthol unigol a'i asiant etholiadol, ac i asiant etholiadol plaid sy'n sefyll yn y rhanbarth (neu, yn ei absenoldeb, ymgeisydd ar restr y blaid) sy'n bresennol ar ddiwedd y cyfrifiad, a rhoi cyfle iddynt ofyn i chi ailgyfrifo cyn datgan y canlyniad<sup>85</sup>. Cewch wrthod unrhyw gais o'r fath os yw'n afresymol yn eich barn chi. Dylech ddangos eich gwaith cyfrifo mewn modd tryloyw ac esbonio'r ffordd y mae'r cyfrifiad yn gweithio i'r ymgeiswyr a'r asiantiaid sy'n bresennol. Dylech hefyd esbonio na chaniateir i ymgeiswyr nac asiantiaid ofyn am ailgyfrif pleidleisiau ar y cam hwn.

## Pleidleisiau cyfartal

7.34 Os bydd dwy blaid neu fwy a/neu dau ymgeisydd rhanbarthol unigol neu fwy yn gyfartal gyda'r cyfansymiau uchaf ar unrhyw gam lle dyrennir sedd, rhaid dilyn y rheolau hyn<sup>86</sup>:

- Os oes digon o seddi sydd heb gael eu dyrannu eto, rhaid dyrannu sedd i bob plaid a/neu ymgeisydd rhanbarthol unigol sy'n gyfartal.
- Os nad oes digon o seddi, rhaid i chi ailddechrau'r cyfrifiad cyfan ar gyfer y rhanbarth o'r dechrau, ond cyn gwneud hynny, rhaid i chi ychwanegu un bleidlais at nifer y pleidleisiau a roddwyd i bob plaid neu ymgeisydd rhanbarthol unigol a oedd yn gyfartal. Dylech gofnodi'r ffaith hon yn eich hysbysiad am y canlyniad.

7.35 Os byddai hyn yn dal i olygu bod gan ddwy baid neu fwy neu ddau ymgeisydd unigol neu fwy y cyfanswm rhanbarthol uchaf, rhaid i chi benderfynu rhyngddynt drwy dynnu ar hap. Awgrymir enghreifftiau o ddulliau tynnu ar hap yn **6.58** uchod.

## Datgan y canlyniad rhanbarthol

7.36 Ar ôl cwblhau'r holl brosesau uchod ar gyfer y cyfrifo a dyrannu seddi, rhaid i chi wneud datganiad yn nodi pa bleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr rhanbarthol unigol y mae seddi wedi cael eu dyrannu iddynt. Yn achos pleidiau gwleidyddol, rhaid i chi hefyd roi enw'r ymgeisydd rhestr plaid a fydd yn llenwi pob sedd. Cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl y datganiad, rhaid i chi hefyd roi hysbysiad cyhoeddus am ganlyniad yr etholiad<sup>87</sup>.

7.37 Dylid ystyried y ffactorau a nodir ym mharagraffu **6.67 - 6.70** wrth ddatgan y canlyniad.



Mae canllawiau ar hysbysu'r cyhoedd a rhoi gwybod i Glerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru pa ymgeiswyr sydd wedi'u hethol i'w gweld yn [Rhan F – Ar ôl datgan canlyniadau](#).

<sup>1</sup> Rules 54 to 62, Assembly Elections Rules (Schedule 5, National Assembly for Wales Representation of the People) Order 2007 (2007 Order)).

<sup>2</sup> Rules 63 and 64, Assembly Elections Rules

<sup>3</sup> Rules 51 to 57, PCC Elections Rules (Schedule 3, Police and Crime Commissioner Elections Order 2012 (2012 Order)) and regulation 3(3)(e), Police and Crime Commissioner Elections (Functions of Returning Officers) Regulations 2012.

<sup>4</sup> Rules 58 to 62, PCC Elections Rules and regulation 3(2)(d), Police and Crime Commissioner Elections (Functions of Returning Officers) Regulations 2012

<sup>5</sup> Regulation 3(4), Police and Crime Commissioner Elections (Functions of Returning Officers) Regulations 2012

<sup>6</sup> Rule 54(1)(a), Assembly Elections Rules and rule 51(2), PCC Elections Rules (as modified by paragraph 41, Schedule 4, 2012 Order)

<sup>7</sup> Rule 54(6)(a), Assembly Elections Rules (as modified by paragraph 19(2), Schedule 4, 2007 Order) and rules 48(5) and 51(5)(a), PCC Elections Rules (as modified by paragraph 38, Schedule 4, 2012 Order).

<sup>8</sup> Rule 52(2) Assembly Elections Rules

- 
- <sup>9</sup> Rules 54(5) and 55(1)(b), Assembly Elections Rules (as modified by paragraph 20, Schedule 4 and Schedule 4A, 2007 Order).
- <sup>10</sup> Rule 54(1)(b), Assembly Elections Rules.
- <sup>11</sup> Rule 54(1)(b), Assembly Elections Rules
- <sup>12</sup> Rule 51(4), PCC Elections Rules
- <sup>13</sup> Rule 51(2), PCC Elections Rules
- <sup>14</sup> Rule 60(2)(a), PCC Elections Rules
- <sup>15</sup> Rule 51(6), PCC Elections Rules
- <sup>16</sup> Rule 39(b), Assembly Elections Rules and 32(1)(b), PCC Elections Rules
- <sup>17</sup> Rule 54(6), Assembly Elections Rules (as modified by paragraph 19, Schedule 4, 2007 Order) and Rule 51(5), PCC Elections Rules
- <sup>18</sup> Rule 54(7), Assembly Elections Rules and rule 51(6), PCC Elections Rules.
- <sup>19</sup> Rule 54(8), Assembly Elections Rules and rule 51(7), PCC Elections Rules
- <sup>20</sup> Section 6E(1), Political Parties, Elections and Referendums Act 2000 (PPERA).
- <sup>21</sup> Section 6F(7)(c), PERA
- <sup>22</sup> Sections 6A and 6B PERA; rule 54(5)(e), Assembly Elections Rules and rule 51(4)(f), PCC Elections Rules
- <sup>23</sup> Rule 54(5) and (6), Assembly Elections Rules and rule 51(3)(b) and (5), PCC Elections Rules
- <sup>24</sup> Ibid.
- <sup>25</sup> Rule 55(12), Assembly Elections Rules
- <sup>26</sup> Ibid.
- <sup>27</sup> Rule 55(1)(c), Assembly Elections Rules
- <sup>28</sup> Rule 55(1) of the National Assembly for Wales Elections Rules (Assembly Elections Rules) (Schedule 5 to the National Assembly for Wales (Representation of the People) Order 2007), as modified by paragraph 20 of Schedule 4
- <sup>29</sup> Ibid.
- <sup>30</sup> Rule 55(2), Assembly Elections Rules
- <sup>31</sup> Rule 55(1)(a) and (d), Assembly Elections Rules, as modified
- <sup>32</sup> Ibid.
- <sup>33</sup> Rule 55(1)(d) and (e), Assembly Elections Rules and Rule 55(1)(e), Assembly Elections Rules
- <sup>34</sup> Rule 55(1)(a) and (c), Assembly Elections Rules, as modified
- <sup>35</sup> Rule 55(1)(e), Assembly Elections Rules
- <sup>36</sup> Rule 55(12), Assembly Elections Rules
- <sup>37</sup> Rule 55(1)(a), Assembly Elections Rules, as modified
- <sup>38</sup> Rule 55(11), Assembly Elections Rules and Rule 52(5) PCC Elections Rules
- <sup>39</sup> Rule 55(1)(a) and (d), Assembly Elections Rules, as modified.
- <sup>40</sup> Rule 55(1)(b), as modified, and rule 55(12), Assembly Elections Rules
- <sup>41</sup> Ibid.
- <sup>42</sup> Rule 55(1)(c), Assembly Elections Rules, as modified
- <sup>43</sup> Rule 55(12), Assembly Elections Rules
- <sup>44</sup> Rule 55(12), Assembly Elections Rules
- <sup>45</sup> Rule 55(1)(d) and (e), Assembly Elections Rules and Rule 55(1)(e), Assembly Elections Rules.
- <sup>46</sup> Rule 50, PCC Elections Rules
- <sup>47</sup> Rule 50, PCC Elections Rules
- <sup>48</sup> Rule 54(1), Assembly Elections Rules and rule 51(2) of the PCC Elections Rules (Schedule 5 to the Police and Crime Commissioner Elections Order 2012, as modified by paragraph 41(3) of Schedule 4
- <sup>49</sup> Paragraph 20 of Schedule 4 (Assembly Election Rules) amends Rule 55 of the conduct rules for combined elections as applied by Schedule 4A of the 2007 Order, as inserted by the National Assembly for Wales (Representation of the People) (Combination of Polls and Amendment) Order 2015) and paragraphs 41(3) and 42(3) of the Police and Crime Commissioner Elections Order 2012)
- <sup>50</sup> Paragraph 20 of Schedule 4 (Assembly Election Rules) amends Rule 55 of the conduct rules for combined elections as applied by Schedule 4A of the 2007 Order, as inserted by the National Assembly for Wales (Representation of the People) (Combination of Polls and

---

Amendment) Order 2015) and paragraphs 41(3) and 42(3) of the Police and Crime Commissioner Elections Order 2012)

<sup>51</sup> Rule 55(11), Assembly Elections Rules and Rule 52(5), PCC Elections Rules

<sup>52</sup> Rule 55(2A), Assembly Elections Rules and Rule 52(3), PCC Elections Rules

<sup>53</sup> Rule 60(2)(b), PCC Elections Rules

<sup>54</sup> Rule 60(2)(c) and (d), PCC Elections Rules

<sup>55</sup> Rule 60(2)(e), PCC Elections Rules

<sup>56</sup> Rule 58(1), Assembly Elections Rules

<sup>57</sup> Rule 53(1), PCC Elections Rules

<sup>58</sup> Rule 60(3), PCC Elections Rules

<sup>59</sup> Rules 53(1) and 60(3) to (5), PCC Elections Rules

<sup>60</sup> Rule 58(2), Assembly Elections Rules and rule 53(2) to (4), PCC Elections Rules

<sup>61</sup> Rule 59, Assembly Elections Rules and rule 56, PCC Elections Rules

<sup>62</sup> Rule 58(5), Assembly Elections Rules

<sup>63</sup> Rule 53(7), PCC Elections Rules

<sup>64</sup> Rule 58(4), Assembly Elections Rules and rule 53(6), PCC Elections Rules

<sup>65</sup> Rule 55(2A), Assembly Elections Rules and Rule 52(3), PCC Elections Rules

<sup>66</sup> Rule 53(2) PCC Elections Rules

<sup>67</sup> Rule 60(2)(b), PCC Elections Rules

<sup>68</sup> Rule 56(1), Assembly Elections Rules and Rule 54(2), PCC Elections Rules

<sup>69</sup> Rule 55, PCC Elections Rules

<sup>70</sup> Rule 56(2), Assembly Elections Rules and Rule 54(4) PCC Elections Rules

<sup>71</sup> Rule 54(4), PCC Elections Rules

<sup>72</sup> *Fermanagh and South Tyrone*, [2010] NIQB 113 (Morgan LCJ at paragraph 43).

<sup>73</sup> Rule 60, Assembly Elections Rules

<sup>74</sup> *Ibid.*

<sup>75</sup> Rule 61(1), Assembly Elections Rules

<sup>76</sup> Rule 57(1), PCC Elections Rules

<sup>77</sup> Rule 57(1), PCC Elections Rules

<sup>78</sup> Rule 57(1), PCC Elections Rules

<sup>79</sup> Rule 57(2), PCC Elections Rules

<sup>80</sup> Rule 63(1), Assembly Elections Rules

<sup>81</sup> Rule 62(2), Assembly Elections Rules

<sup>82</sup> Rule 63(1), Assembly Elections Rules

<sup>83</sup> Rule 23(2), Assembly Elections Rules and section 8(3)(a) and (4) GOWA 2006

<sup>84</sup> Government of Wales Act 2006

<sup>85</sup> Rule 63(7), Assembly Elections Rules

<sup>86</sup> Section 9(8), GOWA 2006

<sup>87</sup> Rule 64(1)(d), Assembly Elections Rules